

# Y BIGWN

CYF. 33 RHIF 3 MAI 2021 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

## Cofio a Dathlu


Mathonwy Hughes t.18


Pen-blwydd Gofal Dydd y Waen t.6/7


Y Parch George Emlyn ac Arwel Emlyn t19

## a mwy


Holi Nia t.16/17


Lleucu, Myfi a Bela t.11


Dolydd blodau gwyllt wrth Swyddfa'r Heddlu t.23

# Ysgol Twm o'r Nant newyddion t. 14





Uned dan 5




Uned dan 9









Uned dan 7



Uned dan 11



Alys Wyn
t14/15



Uned dan 5 yn mwynhau eu llyfrau newydd

## RHESTR Y SWYDDOGION


**CADEIRYDD**
Stan Lyall 813659

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)
Martha Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

Ebost y Bigwn:
ybigwn@hotmail.co.uk



Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
01745812570@uwclub.net
ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Llywodraeth Cymru'

CYMRAEG


# Gair gan y Golygydd

Tua mis yn ôl, daeth mwy nag un bwystfil i'n stryd ni yng Nghrud y Castell sef polion talsyth pren, yn debyg i'r hen bolion telegraff gynt. Eu pwrpas yn ôl Open Reach yw darparu 'Band Eang Cyflawn Tra Chyflym' i'n tai ac i'n ffonau clyfar, ein cyfrifiaduron a'n setiau teledu ac mae mwy o'r rhain nag erioed ymhob tŷ bellach. Mae mwy o alw am 'Y Band Eang Cyflawn Tra Cyflym' mewn cymdeithas fodern, brysur.

Mae chwe polyn yn teyrnasu yn ein stryd. Fe'u codwyd yn gyflym gan giang o weithwyr prysur ar ran cwmni Open Reach. Mae'r polion, yn enwedig yr un dros y ffordd i ni, wedi bod yn ddolur llygad! Wrth edrych allan tuag at Moel Famau drwy ffenest y llofft be welai ond polyn tal,tywyll, hyll sy'n difetha'r olygfa!

Roeddwn dan yr argraff mai dan ddaear y buasent yn cysylltu â'n tai. Bellach, ar ôl cwta fis, rydym wedi dod i arfer efo'r polion fel rydym wedi ymgynefino â'r melinau gwynt anferth uwchben Llyn Brenig.

Mae amser wedi lleddfu'r boen ac nid ydynt yn gymaint o ddolur llygad bellach.

Rhaid derbyn pwysigrwydd datblygiadau newydd a manteisio ar y gwelliannau er lles cymdeithas a'n harferion bob dydd o ran ein defnydd o'r ffôn clyfar, y cyfrifiadur a'r teledu.

Dw i am fynd i'r llofft rwan i werthfawrogi prydferthwch Bryniau Clwyd – mae'r polyn yno o hyd ond yn llai o rwystr rywsut ar ôl cyfnod o fis!! Fel mae amser yn lleddfu'r boen!



Un o bolion Crud y Castell

---

Yn ystod y cyfnod clo cymerais fwy o ddiddordeb yn Facebook gan ddilyn Town Talk.....Denbigh news & views, Cymuned Llên Natur a Capel y Fron bennaf. Ond wyddoch chi fod gan Y Bigwn hefyd dudalen ar Facebook dan yr enw Papur Bro y Bigwn? Ac mae cyfle i chi roi lluniau, fideos, hysbysebion, cyfarchion a newyddion ar dudalen Facebook Papur Bro y Bigwn. Mentrais gyfrannu llun o Frynllidiart yn Nyffryn Nantlle sef man geni'r Prifardd Mathonwy Hughes! (gweler tud. 18 ). Ewch amdani! Gyda'ch caniatâd, mi fyddwn yn gallu cynnwys rhai o'r cyfraniadau yn Y Bigwn!

---

Yn ddiweddar cynhaliwyd gŵyl Yn ôl i Frynllidiart i gofio'r Prifardd Mathonwy Hughes a aned 120 mlynedd yn ôl ac i gofio'i ewythr y Prifardd R. Silyn Roberts a aned 150 mlynedd yn ôl.

Ganed y ddau brifardd mewn tyddyn anghysbell, Brynllidiart, yn Nyffryn Nantlle. Mae'n furddun bellach a gosodwyd plac er cof yno fel rhan o'r ŵyl. I feddwl bod dau brifardd wedi eu geni dan yr un to!

Yn Ninbych cofiwn am Mathonwy a Mair yn byw yng Ngallt y Coed ar yr allt drws nesaf i Jean a Ceredig Gwynn. Roedd Mathonwy yn un o olygyddion Y Faner ac yn gweithio yn swyddfa Gwasg Gee.

Cyd-ddigwyddiad diddorol yw'r ffaith i T. Gwynn Jones, taid Ceredig, ennill y Gadair ac i R.Silyn Roberts ennill y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1902 a phrifardd arall sef Mathonwy, nai Silyn, wedi byw drws nesa i Jean a Ceredig. Mae Cadair Genedlethol Bangor 1902 yn hawlio lle anrhydeddus yn eu cartref yn Lluest.

Mae llawer o ddarllenwyr Y Bigwn yn cofio Mathonwy. Beth am ichi anfon eich atgofion atom fel y gallwn eu cynnwys yn ein rhifyn nesaf. Dyna'r her!

---

Gobeithio eich bod wedi cymryd rhan yn y cwis,"Ble mae'r drewdod?" yn rhifyn Ebrill. Mae'r atebion gan Dyfrig yn y rhifyn hwn. Mwynhewch y darllen.

Erfyl



## CAPEL LÔN SWAN

Daeth cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr eleni fod dyletswydd cyfreithiol ar bob addoldy i wneud asesiad risg, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch cyffredinol, cyn rhoi mynediad i'r cyhoedd. Aethpwyd ati felly i adolygu a diweddaru yr asesiad risg oedd wedi ei greu cyn ail-agor y Capel ym mis Medi 2020.Wedi gwneud hyn, penderfynwyd cynnal ein gwasanaeth cyntaf ers mis Rhagfyr, a hynny ar fore Sul y Pasg. Braf oedd gweld cymaint o aelodau a chyfeillion Lôn Swan yn rhannu Swper yr Arglwydd dan arweiniad teimladwy'r Parch Graham Floyd.
Pythefnos yn ddiweddarach croesawyd Mr Dewi Williams i'n plith, a'r bwriad ar hyn o bryd yw cynnal oedfa foreol am 10.00 bob yn ail ddydd Sul – fwy neu lai. Byddwn hefyd yn cynnal gwasanaeth ar fore Sul Mai 9fed i nodi cychwyn Wythnos Cymorth Cristnogol 2021.

John Davies

**I'W OSOD** o fis Mehefin

Byngalo yn Crud y Castell, Dinbych

Cysyllter ar 01745 814601




Stôf newydd

## Clwb Rotari Dinbych

### Stofiau newydd i Kibera, Nairobi

Mae'n bleser bod yn rhan o ymgyrch elusen Kanzi-Kibera Friends (kanzikiberafriends.org) i godi arian er mwyn prynu stôf newydd yr un, i bedair ysgol yn y slym fwyaf yn Affrica, Kibera. Saif Kibera 6 km y tu allan i Nairobi lle mae tua miliwn o bobl yn byw mewn tlodi, y mwyafrif yn ennill llai na $1 y dydd. Cyfrannodd Clwb Rotari Dinbych £500 a chafwyd grant o £500 gan Rotari yn ganolog.
Mae'r pedair ysgol sydd yn cael eu cefnogi gan elusen Kanzi-Kibera Friends yn rhoi addysg gynradd a pharatoi pryd bwyd i tua 550 o blant bob dydd er mwyn eu hannog i fynd i'r ysgol ac fel ymgais i wella maeth y disgyblion, sydd yn aml yn wael. Bydd y pedair stôf newydd yn llawer mwy effeithiol na'r hen rai ac yn cymryd llawer llai o amser i goginio'r prydau bwyd.
Gan edrych yn agosach at adref, mae Clwb Rotari Dinbych hefyd wedi cyfrannu cyfanswm o £5,100 yn ddiweddar i'r elusennau lleol canlynol: Ambiwlans Awyr Cymru, Hosbis St Kentigern, Hope House / Tŷ Gobaith, Child Line, MIND Vale of Clwyd, Women's Aid (DASU), Gofal Canser Marie Curie, Homestart, Y Samariaid a Nyrsys MacMillan.





## Cymorth Cristnogol

Ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd sefydlwyd yr elusen Cymorth Cristnogol. 75 mlynedd yn ddiweddarach, mae Cymorth Cristnogol yn dal i weithredu. Mae'r angen am help yn parhau.
Trwy bartneriaid lleol mewn sawl gwlad mae'r elusen yn parhau â'r gwaith o ddarparu help llaw ymarferol drwy ariannu prosiectau, a phwyso ar Lywodraeth y DG i arwain y byd yng Nghynhadledd COP26 ym mis Tachwedd 2021 gyda gweithred hinsawdd uchelgeisiol a fydd yn ymateb i'r anghydraddoldeb.
Mis diwethaf, cawsoch gyfle i ddarllen yn Y Bigwn hanes effaith yr argyfwng hinsawdd a'r rheidrwydd i godi argae yn Kenya. Gall eich cefnogaeth ariannol yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol helpu i godi argae arall yn Kenya.
Mae pandemig y coronafeirws wedi cynyddu'r angen brys i deuluoedd gael dŵr. Mae dŵr mor hanfodol yn ein bywydau i gyd. Mae pob diferyn o ddŵr yn werthfawr iawn. Does dim cymhariaeth rhwng taith ddyddiol 8km i Rose yn Kenya i nôl dŵr i'w theulu er mwyn iddynt allu golchi eu dwylo a'n taith ni o'r ychydig gamau at y tap.
Beth am gyfrannu at argau newydd yn Kenya yn ystod yr Wythnos 10-16 Mai, 2021?
Gallwch ddefnyddio tudalen "Just Giving" Pwyllgor Dinbych Pwyllgor Cymorth Cristnogol Dinbych Christian Aid Committee Denbigh OR83077 is fundraising for Christian Aid (justgiving.com)
Neu'r e-amlen https://envelope.christianaid.org.uk/envelope/cymorth-cristnogol-dinbych-or83077-
Neu, talu'r arian i gyfrif Pwyllgor Dinbych
Banc - HSBC UK, Dinbych- 40-19-12. Rhif Cyfrif - 01012118. Enw - Cymorth Cristnogol - Cangen Dinbych
Ewch draw i wefan Cymorth Cristnogol am wybodaeth am weithgareddau yn ystod yr wythnos – er enghraifft - cwis, her y 300,00 cam! paned a gweddi. Gall eich cyfraniad helpu i greu byd gwell.

Cheryl Williams



Ymgyrch Elusen Kanzi-Kibera Friends




# Cerdded Caledfryn – Cywiriad

**Mae'n ddrwg gennyf ond roedd camgymeriad yn llwybr y daith gylch yn yr erthygl Cerdded Caledfryn yn rhifyn Mis Ebrill. Nid oes hawl tramwy rhwng yr A543 a Llewenni. Mae'r daith felly yn mynd tipyn hirach ond mae modd gwneud rhannau ohoni wrth gwrs.**
**Ymddiheuraf os bu i hyn achosi unrhyw drafferth.**
**Dyfrig.**

**Dyma'r llwybr cywir**

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.


Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# Gofal Dydd y Waen -

**Dathlu Degawd o Wasanaeth i rai sydd yn fethedig neu mewn oed**

Mae Mehefin 9fed 2021 yn ddiwrnod pwysig inni yn y Waen gan mai dyma pryd agorwyd drws Gofal Dydd y Waen am y tro cyntaf.
Roedd ganddom estyniad bach fel Festri ac yn awyddus iawn i wasanaethu ein cymuned o bob oed ac o ffydd a dim ffydd.
Daeth at ei gilydd griw bach ond hynod weithgar o wirfoddolwyr ac mae un oedd gyda ni ar y diwrnod cyntaf yn parhau i wirfoddoli a dwy arall a ddechreuodd ein helpu yn ystod gaeaf 2011 hefyd yn parhau i helpu. Gwirfoddolwyr wedi cael hyfforddiant ydym i gyd ac rydym yn talu i gwmni sydd gyda thrafnidiaeth anabl am drafnidiaeth o ddrws i ddrws, costau darparu bwyd ac, wrth gwrs, yn talu am yr ystod eang o weithgareddau rydym yn ei ddarparu o wythnos i wythnos sydd yn amrywio o Baentio / Arlunio, Crefft, Garddio, Trefnu Blodau, Sgyrsiau, Cyngherddau, Coginio, Pobi, Tai Chi, Triniaethau Amgen, Gwneud Gwallt ayyb ac rydym yn ceisio yn barhaol i ddarparu beth bynnag mae'r rhai sydd yn dod atom eu heisiau os ydi hynny yn bosib.
Ers y dechrau rydym wedi rhoi gofal i rai o bob oedran ac wedi ceisio helpu pawb sydd mewn angen ond rydym yn rhoi blaenoriaeth i rai sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig, rhai sydd yn byw gyda theulu er mwyn i'r teuluoedd cael ysbaid cyson wythnosol a phobl iau sydd yn byw gyda salwch hir-dymor.



Rydym yn unigryw yng Nghymru gan ein bod yn darparu Gofal Dydd trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hollol wirfoddol.
Rydym hefyd yn prowd iawn ein bod yn dathlu ein penblwydd yn 10 oed yn enwedig gan fod nifer helaeth o fudiadau hollol wirfoddol fel y ni sydd yn ceisio rhoi darpariaeth cyson ond yn goroesi am 3 mlynedd ar gyfartaledd.
Dros ddeng mlynedd rydym wedi rhoi gofal i dros 250 o unigolion a'u teuluoedd. Mae y rhan fwyaf sydd yn cael eu cyfeirio yn dod trwy law gweithwyr gwasanaethau cymdeithasol / nyrsys cymunedol ond gall teulu a ffrindiau gyfeirio hefyd. Roedd yr ieuengaf wedi ei gyfeirio yn ei 30au a'r hynaf dros 100 oed.
Rydym yn derbyn pobl gyda salwch megis cancr, clefyd Parkinsons,MS, MND, clefyd y galon, alcoholiaeth, rhai ar deialysis a dementia ac ar hyn o bryd mae 3 dan 50 oed yn dod atom. Yn 2016 bu inni gychwyn ail ddiwrnod yn wythnosol gan fod yr angen mor fawr ac fel ein bod yn gallu cynnig dau ddiwrnod o ofal mewn amgylchiadau ble mae'r angen oherwydd iechyd yr unigolyn neu sefyllfa deuluol. Yn 2018 bu inni agor crèche ble mae plantos lleol rhwng 2 -4 oed yn dod draw i rannu gweithgareddau gyda'r rhai sydd yn mynychu Gofal Dydd – yn wahanol i'r rhaglenni teledu o arbrawf am wythnos neu ddwy, mae'r crèche yn agored bob wythnos a'r berthynas rhwng yr hynaf a'r lleiaf y tu hwnt o werthfawr.







Cyn y cyfnod clo roedd 12 -15 o bobl yn dod gyda'i gilydd ddeuddydd yr wythnos ond bellach mae yn rhaid inni gael niferoedd llai ac rydym yn treulio'r rhan fwyaf o'r diwrnod yn y Capel gyda drysau a ffenestri yn lled agored a gyda tho uchel a fentiau aer, mae yna ddigonedd o awyr iach yn troi o'n hamgylch i'n cadw ni i gyd yn ddiogel braf. Mae'r gwres ymlaen am oriau o flaen llaw felly mae pawb yn gynnes braf. Rydym hefyd wedi creu ardaloedd i eistedd tu allan dan "canopi "ac wedi eu defnyddio'n barod yn yr hydref ac yn edrych ymlaen i fod allan mwy yn ystod y tywydd braf.
Rydym yn credu ei bod mor bwysig peidio segregeiddio pobl o ran oedran nag anabledd – ein pwyslais yw'r unigolyn nid label eu salwch a bod Gofal Dydd yn adlewyrchu'r gymuned gyda phob oedran yn rhannu gweithgareddau, cael llawer o hwyl ac yn helpu ei gilydd.
Daw nifer helaeth atom o Sir Ddinbych ac yn wir o dref Dinbych ond mae rhai hefyd o Siroedd Conwy a Fflint ac mae rhai yn teithio dros 25 milltir un ffordd i ddod atom.
Mae'r gost o gynnal Gofal Dydd yn £30,000+ y flwyddyn sydd yn swm enfawr inni godi ac yn anoddach inni ei godi bob blwyddyn. Rydym yn gwerthfawrogi pob rhodd ac mae pob ceiniog, wirioneddol, yn cyfri inni ac yn enwedig ar hyn o bryd gan nad oedd yn bosib codi arian y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn gobeithio y byddem yn gallu cael ambell weithgaredd eleni.
Nid ydym yn gofyn am swm o arian i fynychu Gofal Dydd ond mae'r rhan fwyaf sydd yn dod atom yn cyflwyno rhodd fach tuag at y costau sydd yn £40 y person y diwrnod.
Rydym yn parhau i roi gofal tan y misoedd, wythnosau ac mewn rhai achosion y dyddiau olaf o fywyd a chyn belled ein bod yn gallu rhoi'r gofal sydd ei angen, mae rhai yn parhau i ddod atom ac rydym yn rhoi llawer o amser i gynnal teuluoedd tra mae eu hanwyliaid gyda ni ac yn glust i

→

wrando ar eu gofidiau a'u profiadau. Mae amryw o deuluoedd wedi disgrifio Gofal Dydd yn amhrisiadwy a'r ysbaid wythnosol yn eu galluogi i barhau i ofalu gartref yn hirach na fyddent heb Ofal Dydd.

Beth yw ein gobeithion? Rydym yn gobeithio ehangu i roi rhagor o ddyddiau o Ofal Dydd gan fod y galw mor fawr a hefyd yn cynnig triniaethau amgen i rai yn eu cartrefi sydd yn estyniad o Ofal Ysbaid Helpu'n Gilydd. Ein nod hefyd ydi codi ein proffeil o fewn y gymuned fel ein bod yn gallu gwasanaethu rhagor o bobl.

Rydym bob amser yn falch o glywed gan rai sydd yn awyddus i'n helpu ac rydym angen help mewn sawl maes heblaw am y gwirfoddolwyr sydd yn gofalu o wythnos i wythnos. Cysylltwch gyda ni os oes ganddoch ddiddordeb gwybod rhagor.

Hefyd os fyddech yn hoffi gwybod rhagor am Ofal Dydd a Helpu'n Gilydd ar gyfer aelodau o'r teulu neu gyfeillion, mae croeso ichi gysylltu.

Rydym hefyd yn hapus iawn i roi sgwrs am Ofal Dydd i grwpiau a mudiadau trwy zoom neu gobeithio y bydd modd sgwrsio wyneb yn wyneb yn y dyfodol agos.

Gellwch gysylltu trwy ebost helpugilydd@gmail.com neu ysgrifennu at Gofal Dydd y Waen, Ty Capel, Waen , Llanelwy, LL17 0DY.Gofynnwn yn garedig ichi beidio galw i mewn yn ystod cyfyngiadau Cofid.

**Yr Athro**
**Mari Lloyd Williams.**

# CERDDWN YMLAEN

A ninnau, mae'n ymddangos, yn dod yn nes bob dydd at weld terfyn ar afael haearnaidd Cofid-19 arnom, tybed a oes yna unrhyw ddatblygiadau llesol wedi deillio'n lleol o'r pla dieflig hwn?

Yn bendant oes.

Ar ben y rhestr, fe ddywedwn i, mae'r llwybr gafodd ei greu o amgylch caeau chwarae yr ysgol uwchradd. Fe ymddangosodd hwn heb yn wybod i lawer ohonom yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig.

Tarmac llyfn ac esmwyth sydd yn sicr yn ddwy fetr o led - os nad mwy na hynny - gan ymestyn am ryw hanner milltir o glwb pêl-droed y dref hyd at y ganolfan hamdden.

Yn ychwanegol – a dyma'e elfen sydd yn holl bwysig – dim dringo i fyny unrhyw allt yn agos ato. Gall unrhyw un deithio ar ei hyd, ac y mae yna gannoedd os nad miloedd ohonom wedi gwneud hynny.

O ran pellter, y mae'i hyd o fewn cyrraedd y mwyafrif ohonom. Y bore 'ma roedd yna ŵr mewn sgwter ar gyfer yr anabl yn mynd â'i gi am dro ar ei hyd.

Bu'n rhaid imi symud o'r neilltu i ŵr ifanc a oedd yn rhedeg ar garlam tu ôl imi, a hynny tra'n sgwrsio'n ddi-feddwl ar ei ganol ag un arall o hogia' Llanbêr.

A chan nad oes yna gar na fan na lori yn agos i'r lle, mae'n bosib' cynnal sgwrs a chadw at y pellter cymdeithasol derbyniol.

Ar un ochr mae caeau'r ysgol ac ar yr ochr arall ceir ceffylau a mulod (neu efallai mai asynnod ydyn nhw!) yn pori'n dawel. Bryniau Clwyd ar un ochr ac ucheldir Hiraethog ar yr ochr arall. A oes yna well golygfa?

Dylem ddiolch o galon i'r sawl fu'n gyfrifol am y fenter hon. Rydwi'n cymryd yn ganiataol mai rhai o'n cynghorwyr lleol a fu'n gwthio am hyn. Llongyfarchiadau i chi.

Ysgwn i ydy' hi'n bosib' creu estyniad i'r llwybr drwy'i ymestyn ar hyd yr hen reilffordd tu ôl i Grud y Castell a Pharc Myddleton tuag at Y Brwcws? Byddai yna hyd yn oed fwy o fynd ar feics wedyn.

Yn bendant mae'r llwybr newydd yn gaffaeliad i drigolion y rhan hon o waelod y dref.

Nodwedd arall a ddaeth i'r amlwg fu i bobl gyfarch ei gilydd. Yn ystod cyfnod mor anodd y mae gallu dweud "Sut mae hi?" neu "Helo" yn codi calon. Lleiafrif bychan bellach sydd yn rhoi'u pennau i lawr ac anwybyddu rhywun.

Mae yna fwy o bobl yn berchen ar gi neu dri, a hynny yn gysur mawr iddyn nhw. Cyn belled â'u bod yn rhoi baw'r ci neu gŵn hynny mewn bag bach du a mynd ag ef adref gyda nhw wela' i ddim byd o'i le ar hynny.

**Stan Lyall**

# Merched y Wawr

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi y llynedd oedd y tro diwethaf i ni gyd-gyfarfod wyneb yn wyneb fel Cangen Dinbych a'r Cylch. 14 mis yn ddiweddarach, rydym yn byw mewn byd hollol wahanol.

Mae eistedd o flaen y cyfrifiadur yn hanfodol erbyn hyn i wneud gwaith, i siopa neu i fod mewn cyswllt ag eraill. Faint o gyfarfodydd Zoom da chi wedi ymuno â nhw yn ystod y misoedd diwethaf? Roedd Zoom yn air newydd i ni fel aelodau o Ferched y Wawr, ond erbyn hyn, mae'r ffordd newydd a diarth yma o gysylltu yn rhan fawr o'n bywydau ac yn air cyfarwydd iawn!

Rydym wedi cyfarfod yn fisol dros Zoom ac mae'r mudiad yn genedlaethol wedi bod yn brysur yn trefnu digwyddiadau Zoom ar ein cyfer ni.

Er mwyn mireinio ein sgiliau digidol, cawsom gyfle i ymuno â chwrs cenedlaethol y mudiad ar Sgiliau Digidol Hanfodol.

Yn ogystal â chwrs crefft neu ddau, noson gosod blodau, sgyrsiau difyr am bynciau amrywiol, fel sgwrs gan Bethan Richards yr Ysgubwraig Simnai, cawsom ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Y Merched gyda Sara Huws, yr Hanesydd, ac oriau difyr yng nghwmni awduron fel Bethan Gwanas, Marlyn Samuel ac Angharad Hunter.

A beth am y tudalennau Facebook i bori drwyddynt? Crewyd nifer o grwpiau a oedd yn ymddangos ar y gwefannau cymdeithasol yma: 'Cant y Penwythnos' a 'Dod i Adnabod' a thudalennau Curo'r Corona'n Coginio, Curo'r Corona'n Crefftio a Curo'r Corona yn y Cartref.

Ac yn ystod mis Ebrill, tudalen newydd arall Curo'r Corona'n Camu. Cyfle i godi oddiwrth y sgrin a chofnodi faint o gamau rydym yn eu cerdded bob dydd. Doedd dim rhaid bod yn uchelgeisiol na gwthio'ch hun yn ormodol – roedd pob cam yn cyfri.

A be' nesa? Er nad yw bod ar Zoom yr un fath â bod yna yn y cnawd, mae'n ffordd o ddod â phawb ynghyd ac wedi bod yn achubiaeth i lawer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ond, gyda gobaith a'r rheolau yn llacio, cawn gyfarfod wyneb yn wyneb unwaith eto. Mi fyddai'n braf medru croesawu aelodau newydd atom ym mis Medi, pan fyddwn yn ail-ymgynnull. Felly chi ddarllenwyr Y Bigwn, beth amdani? Bydd mwy o wybodaeth yn y rhifyn nesa.


# Cornel y Plant


## Croesair Mistar Urdd


Rhowch y geiriau yn y croesair:

| | |
|---|---|
| dawns | llefaru |
| gwehyddu | unawd |
| ymgom | cystadlu |
| argraffu | ffasiwn |
| perfformio | canu |
| lluniadu | deuawd |
| print lliw | print lliw |
| pypedau | band |







## Eisteddfod

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| p | v | e | f | l | e | p | a | l |
| o | r | h | v | l | p | a | c | l |
| u | r | d | d | v | l | b | t | e |
| c | h | w | a | r | a | e | i | f |
| a | t | g | o | s | m | l | o | a |
| n | t | p | h | w | y | l | m | r |
| u | v | o | r | r | o | n | f | u |
| f | f | r | i | n | d | i | a | u |
| c | y | s | t | a | d | l | u | f |

| | | |
|---|---|---|
| pabell | hwyl | actio |
| cystadlu | chwarae | canu |
| Urdd | ffrindiau | llefaru |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6 | + | | = | 14 |
| + | | + | | + |
| | + | 9 | = | 16 |
| = | | = | | = |
| 13 | + | | = | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 20 | - | 12 | = | |
| + | | + | | + |
| 25 | - | | = | 13 |
| = | | = | | = |
| | - | | = | |

cyngor sir ddinbych

Cynghorydd

**Mark John Young**



Dinbych Isaf

- Annibynnol

S: 07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk


E:mark.young@sirddinbych.gov.uk

## Atebion Ebrill2021

**Ar Draws :**
6. Gwdihw
8. Electron
9. Apêl
10. Mochyn
11. Best
12. Unigol
14. Ystlumod
17. Llances
19. Nwydus
21. Cyfuniad
22. Coblyn
24. Cosb
26. Daear
27. Tutu
28. Bonclust
29. Iogwrt

**ILawr :**
1. Niwl
2. Gwamal
3. Neon
4. Ateb
5. Lobsgows
7. Wlpan
8. Erchwyn
13. Genau
15. Tew
16. Undeb
17. Llwynogod
18. Eli
20. Adfent
22. Cerlid
23. Ystyr
25. Beca
26. Drud
27. Toga

# CROESAIR MAI 2021




**Ar Draws :**
1. .... moes mwy
4. Ymarfer corff poblogaidd (4,2,3)
9. Math o gwch hwylio
10. Rhywbeth i ddal edau mewn peiriant gwnïo
11. Perlysieuyn
12. Lle i brynu a gwerthu
13. Cryf
15. Cadair a welid mewn parlwr tybed? (4-4)
18. Adeilad pum-ochrog yn Washington
20. Dysgedig
23. Darogan
24. Sylwedd angenrheidiol, ee A, C, D
26. Anodd ei dorri
27. Un sy'n croesawu ymwelwyr ee mewn meddygfa
28. Ffordd o weld pethau
29. Llwfr

**I Lawr :**
1. Dyfais i weld pethau bychain yn fwy
2. Coffi llaethog
3. Gwegian
4. Joci
5. Mesur bychan iawn o bellter
6. Handi i'ch gwarchod rhag gawod
7. Cyfrifol
8. Atodiad ar ddiwedd dogfen
14. ee solar, gwynt, trydan dŵr (4,5)
16. Un sy'n chwarae offeryn mewn capel neu eglwys
17. Cyfres o gwestiynau
19. Wedi ei bwysleisio
21. Llacio 22. Pont las ar draws . .... yn Y Rhyl (1,5)
23. Cewch y bai ..... os ydych yn ddieuog (2,3)
25. Enw cyntaf awdur Llyfr Glas Nebo






# Curo'r Corona

**Mae hi dros flwyddyn bellach ers i'r achos cyntaf o cofid 19 gael ei gofnodi yma yng Nghymru a chyfnodau clo wedi mynd a dod. Bu'n gyfnod pryderus a heriol ond gan fod y mwyafrif o boblogaeth Cymru wedi derbyn brechlyn bellach a rheolau yn llacio, mae gobaith yn y tir. Felly dyma gyfle i ofyn i rai o ddarllenwyr Y Bigwn sut mae nhw wedi dod drwyddi………**

## Y Cyfnod Rhyfedda

Cyfnod rhyfedda ein bywydau, yn enwedig i'r rhai sydd wedi dioddef salwch neu golled, fu'r misoedd diwethaf. Anodd credu ein bod wedi gorfod ail feddwl pob agwedd ar fywyd am flwyddyn a mwy, ac yn wir, am ba hyd eto? Dod allan o'r cyfnod yn holliach yw'r nod bellach. Daeth bywyd bob dydd arferol i ben dros nos. I mi, golyga hyn dim cyfarfodydd y Cyngor Tref, Theatr Twm o'r Nant na'r Amgueddfa. Felly llai o bwysau a chyfrifoldeb ar y naill law ond ar y llall dim cymdeithasu, dim mynychu gwasanaethau, dim Merched y Wawr na'r Gymdeithas Gymraeg. Dim siopa hyd yn oed, felly daeth cymorth gan eraill yn bwysig iawn ac 'rwy'n diolch o galon i gyfeillion a chymdogion am bob sgwrs a chymwynas. Bu'r teleffon erioed mor werthfawr!

Beth ddaeth yn lle y bwrlwm cymdeithasol? 'Rwy'n ystyried fy hun yn ffodus tu hwnt na theimlais unigrwydd na diflastod. 'Roedd yn braf cael amser i fwynhau fy niddordebau. Garddio yn bennaf, chwarae tenis pan yn bosib, darllen, ac wrth gwrs gwylio Pencampwriaeth y Chwe Gwlad ar y teledu. Am wledd, ac yn fy atgoffa am fynychu gemau rygbi rhyngwladol yn y Stadiwm yng Nghaerdydd. 'Roeddwn i bob amser yn cydymdeimlo â'r dyfarnwr. Byddai ef yn dyfarnu'r gosb am drosedd ac yn ddieithriad byddai saith deg pump o filoedd o gefnogwyr yn anghytuno ac yn bloeddio eu gwrthwynebiad!



Haf diwethaf cyrhaeddais ben-blwydd arbennig heb ddisgwyl unrhyw fath o ddathlu, felly 'roedd yr holl gardiau, blodau, anrhegion ac ymweliadau ffrindiau yn ystod y dydd - yn yr ardd ac yn dilyn y canllawiau wrth gwrs - yn dipyn o syrpreis ac yn bleser pur. Mae yna ddwy anrheg eto i ddod sef taith mewn 'hot air balloon' ac antur 'Zip World' ym Methesda! 'Rwy'n mawr obeithio na fydd fy oed yn rhwystr erbyn i'r digwyddiad yma gael caniatâd i ail afael ynddi.

Mae ein dyled yn fawr i'r gweithwyr fu'n llafurio drwy'r cyfnod. Yn ein hysbytai a'r meddygfeydd, yn y siopau a chasglu sbwriel, yr athrawon a'r gweinidogion, a'r arbenigwyr sydd mor hanfodol i'n bywydau - trydanwyr, plymars, adeiladwyr a garddwyr. Diolch i chi gyd.

'Does dim amdani ond edrych ymlaen at y dyfodol yn hyderus, bod yn ofalus, plygu i'r drefn a cheisio cadw'n iach. Fe ddaw haul ar fryn, a sut bynnag fydd y 'normal' newydd o leia' mi fyddwn yn ei wynebu gyda'n gilydd ac mewn undod y mae nerth.

**Gaynor Morgan Rees**

## Cael y llaw ucha', ne'…!

Anodd ar y naw ydi trio dirnad a chael trefn ar bethau ynghanol yr aflwydd 'ma. Mae'r geiriau 'clo' a 'carchar' yn mynnu dod i'r fei ac yn anffodus 'rydym i gyd mewn rhyw fath o gell, a ninnau yn hollol ddiniwed. Y gamp ydi dangos i'r mwnci peth 'ma ein bod ni mor styfnig a phenderfynol, ac yn fwy felly, na fo. Oes, mae mistar ar Mistar Mostyn, ac yn hwyr neu'n hwyrach mi gaiff o gic go egar yn 'i ben ôl, a gorau po gyntaf y digwydd hynny'n te! 'Chydig iawn o drefn sy' wedi bod ar fywyd rhywun, rhyw gadw yn y cysgodion a theimlo fel rhyw feudwy mewnblyg. Ond, mae'r 'pethau bychain' chwedl Dewi yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr a dod â sglein yn eu sgil. Oedd, mi oedd yr hen sant yn llygad 'i le ac mae 'na lastwreiddio wedi bod ar y diflastod 'ma.

Rydw i'n teimlo'n hynod o lwcus 'mod i'n byw yn Nyffryn Clwyd 'ma a'r ardd rŵan, o'r diwedd, yn gofyn am dipyn o dendans ac os ydi'r tywydd yn giami mi fydda i'n i g'leuo hi am y gweithdy. Be' well 'de?

Ar foreau Gwener, rydan ni'n codi am saith a'i heglu hi am Morrisons ac wedyn galw'n Lidl ar y ffordd nôl ac mi fyddwn ni adra a'r bagiau'n llawn tua hanner awr wedi wyth. Yn y bore mae'i dal hi! Da 'de! Yn amlach na pheidio, ond Ôl a minnau ac un neu ddau arall fydd yn mwynhau tawelwch y bore tra'n llenwi'n basgedi. Brên wêf wir.

Rydym yn lwcus hefyd fod Mei a'r teulu'n byw o fewn tafliad carreg go lew i ni ac yn barod iawn eu cymwynas. Mae agosatrwydd felly'n gwneud byd o wahaniaeth dan yr amodau gwallgof 'ma. Bob hyn a hyn mi ddaw Llin a'r genod draw o Bentrefoelas i siopa a galw acw am sgwrs, sgwrs hyd braich y tu allan mwya' bechod ond mae'n



braf iawn eu gweld nhw.

Mae'r adar 'cw hefyd yn ffisig sy'n codi calon rhywun pan ddown nhw'n eu dwsinau i gecru a bygwth wrth sglaffio'r peli-braster, y cnau a'r bara. Yr hyn sy'n galondid ydi fod 'na dipyn mwy o ddiddordeb yn y byd o'n cwmpas ni'r dyddiau yma a gobeithio y pery hynny. Sioe a hanner. Oes, mae 'na dda ymhob drwg, wchi.

**Berwyn Roberts**

# Ein Profiad o'r Cyfnod Clo

Helo, Lleucu a Myfi ydan ni a dyma'n profiad ni o'r cyfnod clo.

Roedd y tywydd yn braf iawn yn ystod y cyfnod clo cyntaf ac roedden ni wrth ein boddau yn chwarae yn yr ardd efo ein brawd mawr Guto, yn gwneud 'assault course' ac yn neidio ar y trampolîn bob dydd. Yn lwcus iawn, tua mis a hanner cyn y clo cyntaf mi ddaeth Bela i fyw aton ni, labrador bach du hyfryd. Mi wnaeth hi ein cadw ni'n brysur iawn achos roedden ni'n mynd â hi allan am dro bob dydd, at yr afon ac i'r caeau i chwarae pêl. Rydan ni wedi cael llawer o hwyl efo Bela dros y flwyddyn ac yn teimlo yn lwcus i fod yn byw mewn ardal mor hyfryd, efo digon o lefydd neis i fynd am dro.

Yn fuan ar ddechrau'r clo, mi wnaethon ni dynnu lluniau o enfys a'r neges 'Daw eto haul ar fryn' a'i roi yn ffenest yr ystafell fyw, fel llawer o blant eraill. Buon ni hefyd yn hel cerrig a'u haddurno efo'r un neges, a'u rhoi yn y neidr hir liwgar o gerrig o flaen Siop y Parc. Bob wythnos roedden ni'n sefyll efo'n cymdogion ac yn curo dwylo a bangio sosbenni i ddiolch i'r



Gwasanaeth Iechyd am ofalu amdanon ni i gyd.

Mi oedden ni'n colli cael mynd i'r ysgol a gweld ein ffrindiau, ond roedden ni'n cael digon o waith i'w wneud adra ar y cyfrifiadur, ac yn cael negeseuon hyfryd a galwadau ffôn gan ein athrawon. Roedden ni hefyd yn cadw cysylltiad efo ffrindiau dros Zoom, a chafon ni bartis pen-blwydd drosto hefyd, efo gemau hwyliog a digon o ddawnsio a chwerthin!

Mi fuon ni'n ffodus iawn fod pawb o'r teulu wedi cadw'n iach drwy'r cyfnodau clo. Ond roedden ni'n colli gweld ein teulu yn fawr iawn - Nain a Taid Henllan a Taid Llanberis yn arbennig. Cafon ni hwyl yn gwneud cardiau del ac yn ysgrifennu llythyrau i Nain a Taid, yn chwarae bingo efo Taid Llanbêr a chael cwis efo'r teulu dros 'Facetime'. Fe wnaethon ni ddysgu fod rhai aelodau o'r teulu yn gystadleuol iawn!

Fel llawer o deuluoedd eraill yn ystod y cyfnod clo cyntaf, buon ni'n mwynhau coginio cacenni a bisgedi gwahanol. Pan oedden ni wedi blino ac eisiau rhoi ein traed i fyny, roedden ni wrth ein boddau yn gwylio Disney+ ar y teledu. Er ein bod yn siomedig nad oedd Eisteddfod yr Urdd wedi dod i Ddinbych, fe wnaethon fwynhau cystadlu yn Eisteddfod T a chael hwyl yn cymeryd rhan yn y cystadlaethau gwahanol.

Mi oedd hi'n braf cael bod adra yn ystod yn cyfnodau clo, ond mi ydan ni'n dwy yn falch iawn i gael mynd yn ôl i'r ysgol unwaith eto!

Lleucu a Myfi (10 a 7 oed)


Daniel Morris

CIGYDD LLEOL

01745 812585

info@dmorrisbutchers.co.uk

www.dmorrisbutchers.co.uk

124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS



MEIRION DAVIES A'I GWMNI

01745 812400

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych

* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones



Trefnwyr Angladdau Annibynnol

R.W.Roberts a'i Fab

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele


| | |
|---|---|
| Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, | Plas Tirion, Kinmel Avenue, |
| Dinbych, LL16 4RH | Abergele, LL22 7LW |
| Ffôn: 01745 812935 | Ffôn: 01745 827777 |
| Ffacs : 01745 817303 | Ffacs : 01745 827750 |
| E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com | E: rwroberts.abergele@gmail.com |

www.rwrobertsandson.co.uk

Golden Charter Funeral Plans

SAIF National Independent Funeral Directors





MODURON Y GRAIG

Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)

Atgyweirio ceir a thractorau

Iard y Graig, Ffordd y Graig,

Ffôn:01745 815606

550337 / 550512(cartref)

## Sut ddaethon ni drwyddi ....

**Yn wahanol i nifer tydw i heb gael fawr o gyfle i slofi i lawr ryw lawer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a mynd ati i glirio, sortio neu addurno'r tŷ gan mod i wedi bod yn gweithio o adref trwy gyfnod y pandemig. Roedd hyn yn brofiad hollol newydd i mi ac mi gymerodd oddeutu chwe mis i geisio addasu a derbyn y sefyllfa. Rwyf yn hynod o lwcus bod gen i swydd ac yn falch iawn o hynny.**

**Buodd y tri phlentyn Gwion, Aron a Gwenno adre am bum mis yn ystod y cyfnod clo cyntaf a dysgu o adref yn brofiad hollol newydd. Roeddem yn ceisio mynd allan o'r tŷ am dro neu ar ein beics o gwmpas y dre gymaint â phosib er mwyn edrych ar ôl ein lles. Roedd cyfarfod â ffrindiau a theulu dros zoom yn ffordd dda o gadw cysylltiad a chawsom ambell i noson bampro ayyb dros zoom – ffordd wych o ymlacio!**

**Roedd yn chwith mawr heb y sioeau dros yr Haf a hefyd gohirio Eisteddfod Yr Urdd Dinbych yn 2020. Er hynny buom yn ffodus iawn o gael treulio wythnos fel teulu yn Sir Benfro fis Awst – uchafbwynt yr Haf yn sicr. Cawsom gyfle hefyd i ymweld â theulu tra roeddem yno.**

**Roedd y plant yn falch o gael dychwelyd i'r ysgol fis Medi a chael cyfarfod eu ffrindiau eto. Bu yn gyfnod o wylio gwasanaeth Diolchgarwch a chyngerdd Nadolig yr ysgol a hefyd ffarwelio â phrifathro i gyd dros zoom.**

**Cefais gyfle i ymgeisio am swydd arall ac oriau ychwanegol dros dro fis Tachwedd – ychydig a wyddwn amser hynny y byddai'r ysgol yn cau yn gynt na'r disgwyl dros y Nadolig a'r plant i gyd adref eto am bron i 4 mis arall!**



**Roedd hwn yn gyfnod heriol iawn wrth geisio gweithio llawn amser o adref, rhoi cefnogaeth i'r plant a pharatoi bwyd i'r 5 ohonom! Bum yn lwcus iawn o gael gweld Mam dros y gaeaf ac mae'r ddwy ohonom wedi medru bod yn gefn i'n gilydd trwy gyfnod anodd o fethu gweld pobl eraill.**

**Mae'n braf iawn gweld y rheolau yn llacio erbyn hyn, y plant yn ôl yn yr ysgol, cael trafaelio a chael gweld y môr unwaith eto a chael dal i fyny efo teulu a ffrindiau. Gobeithio y bydd pethau yn parhau i wella ac y bydd modd symud ymlaen rŵan a'r Haf o'n blaenau.**

**Rhian Williams**

## Y Cyfnod Clo

Yn ystod y cyfnod clo dwi wedi bod yn cerdded dipyn o gwmpas Dinbych ac wedi bod yn tynnu dipyn o luniau. Un o fy hoff lefydd ydi'r traeth yn ymyl Borth-y-Gest. Dwi wedi bod yn coginio dipyn, gwneud cacennau a fy hoff bryd bwyd ydi paratoi spaghetti bolognese. Fe fyddaf hefyd yn mwynhau dipin o waith celf. Mae cyfarfodydd gwahanol ar zoom yn ystod y cyfnod clo wedi bod yn help i mi i gadw mewn cysylltiad.

**Dyfan Roberts**




**Emyr Evans** a'i Gwmni Cyf

Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333



Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900



Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew


e-bost:info@emyrevans.co.uk

JCB M-Hale Massey Ferguson FENDT PÖTTINGER



**Glyn Evans Autoclinic**
**Atgyweirio Ceir**

Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg

01745 815141

repairs@evansautoclinic.com

# AMGUEDDFA RADIO

Gwefr heb Wifrau

Dilynwch ni ar flickr

https://cwmulus.org/

Cwmulus

## Digwyddiadau

"Pa hawl sydd gen i i ddehongli stori? Pa hawl sydd gen i i osod safonau heddiw ar y straeon?" oedd cwestiynau Pegi Talfryn ar ddechrau ei sgwrs arlein am 'Santesau Celtaidd, y fam, y forwyn, y ffeminist' yn ddiweddar. Mae gan Pegi ddiddordeb mawr yn y Santesau Celtaidd a rhoddodd gipolwg i ni ar hanes Non, Teneu, Melangell a Dwynwen. Mae 'na nodweddion tebyg yn hanesion y bedair – eu prydferthwch, eu dymuniad i fod yn wyryf a gwasanaethu Duw, yn dioddef trais, yn goroesi ac yn ailadeiladu eu bywydau. Honnodd Pegi ei bod hi'n berffaith deg i edrych ar y chwedlau o safbwynt modern a bod yna wersi i ni i'w dysgu heddiw.



Eglwys Pennant Melangell, ger Llangynog, Powys

Mae'r Amgueddfa yn ddiolchgar iawn i Pegi am ei chefnogaeth dros y blynyddoedd, yn arbennig wrth lywio'r pwyllgor adeg sefydlu'r Amgueddfa, ac fel ymddiriedolwr ers hynny. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i Menter Iaith Sir Ddinbych a Popeth Cymraeg am noddi'r sgwrs yma, ac edrychwn ymlaen i gydweithio eto yn y dyfodol. O safbwynt technegol, arbrofwyd ar ddull newydd o gyfieithu ar y pryd ar y noson, yn llwyddiannus.




## Arddangosyn newydd

Dyma falf "newydd sbon" Harries o'r 1930au. Pwrpas falfiau yw mwyhau signalau radio neu signalau sain gwan yn y ffordd fwyaf effeithlon, heb newid y signal. Nid oedd gan falfiau cynnar lawer o fwyhad, ond erbyn y 1920au hwyr roedd ganddynt lawer mwy ohono, ond roedd yn dal yn aneffeithlon. Roedd falf Harries, a enwid ar ôl ei dyfeisiwr J. Owen Harries, yn fwy effeithlon, ond buan y disodlwyd honno gan falfiau â mwy o fwyhad ac effeithlonrwydd, ac yn y pen draw gan dransistorau.

Mae dros chwarter miliwn o bobl wedi ymweld â'r Amgueddfa ar Flickr erbyn hyn!

flickr

## Darlithiau

Dyma'r darlithiau nesaf yng nghyfres arlein yr Amgueddfa ynghyd â Cwmulus:

Ar 21.05.2021, bydd Grant Peisley, cyfarwyddwr Ynni Cymunedol Cymru a sylfaenydd Datblygiadau Egni Gwledig, yn sôn am Gweithredu Cymunedol ar Newid yn yr Hinsawdd. Bydd yn disgrifo prosiectau ynni cymunedol yng ngogledd-orllewin Cymru ac yn edrych sut mae'r grwpiau cymunedol hyn yn troi eu sylw at weithredu yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Ynni Cymunedol Cymru

Ar 18.06.2021, Dr. D. Ben Rees fydd y siaradwr a bydd yn rhoi cipolwg ar ardal Eisteddfod Genedlaethol 2022 yn ei ddarlith Gymraeg, Dewch i Dregaron – Ardal yr Eisteddfod. Bydd yn rhoi disgrifiad byw o'r dref, gan ddechrau wrth gofgolofn Henry Richard, 1812-1888, heddychwr a gwleidydd, ac yn sôn am bobl leol dylanwadol, traddodiadau eisteddfodol a cherddorol, crefydd, Cymreictod, Cors Caron, ceffylau a'r barcud coch.

Ar 23.07.2021, bydd Steve Harris, Cyn-gyfarwyddwr Amgueddfa Ddarlledu Caer, yn siarad am 'Cysylltiad â Lerpwl' – Teganau, Trenau a Setiau Di-wifr. Bydd yn sôn am ardal 'Old Swan' lle roedd dau weithgynhyrchwr cydrannau radio oedd â chysylltiadau diddorol, o drenau clocwaith i locomotifau trydan, gan gyfeirio yn arbennig at Hornby, Lotus, a Wingrove a Rogers. Croeso cynnes i bawb. Bydd y sgyrsiau yn cychwyn am 7.00 y.h. a rhaid cofrestru o flaen llaw - edrychwch ar y gwefannau uchod neu ar dudalen Facebook Gwefr heb Wifrau am fanylion.

Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482



CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES
Osian Roberts LLB . Gwenllian Huws LLB . Lois Griffiths LLB LLM
29 FFORDD RHUTHUN, DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# Ysgol Twm o'r Nant

Braf yw cael pob blwyddyn yn ôl yn yr ysgol erbyn hyn ar gyfer Tymor yr Haf. Mae pob uned yn gorfod parhau i weithio o fewn eu swigod er mwyn cael cadw yn ddiogel. Braf yw clywed bwrlwm plant o gwmpas yr ysgol unwaith eto. Mae pob uned yn brysur yn eu hardaloedd tu allan gan bod yr haul yn tywynnu a diolch i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am sicrhau ychydig o adnoddau i ni eleni.

Roedd yr ysgol yn dathlu 60 mlwyddiant y flwyddyn diwethaf ac yn anffodus daeth yr hen covid ar draws ein cynlluniau i ddathlu. Penderfynwyd felly gofyn i rieni, ffrindiau a chyn-rieni a disgyblion Ysgol Twm o'r Nant yrru arian i'r ysgol i noddi llyfrau Cymraeg newydd sbon i bob uned. Codwyd £1217.50. Caiff y plant fwynhau amrywiaeth o lyfrau Cymraeg newydd yn eu dosbarthiadau nawr. Braf yw cael edrych ar y sticeri i weld pwy sydd wedi noddi yr amryw lyfrau a diolch arbennig i bawb sydd wedi gwneud hyn.

**Uned Dan 5**

Mae plant yr Uned dan 5 wrth eu boddau i gael bod yn ôl yn yr ysgol yng nghwmni eu ffrindiau! Ein thema am yr hanner tymor yma ydi Yn y Gwyllt a byddwn yn edrych ar fywyd gwyllt yn yr ardd yn ogystal â bywyd gwyllt o gwmpas y byd. Rydym wedi dechrau trwy edrych ar fywyd gwyllt ers talwm pan oedd deinosoriaid yn crwydro'r byd. Dyma luniau rhai o blant y Dosbarth Derbyn yn cydweithio'n wych i greu cynefinoedd i'w deinosoriaid.

**Uned Dan 7**

Mor braf yw cael y plant yn nôl yn yr Uned Dan 7 ar ôl amser hir. Mae pawb wedi setlo'n wych i fywyd ysgol unwaith eto. Er mwyn sicrhau lles ein plant mae nhw wedi bod yn cael te prynhawn mewn grwpiau bach gyda'u hathrawon. Amser i drafod a chael sgwrs, a diolch am yr haul i ni gael ein te y tu allan!

Cafodd yr Uned Dan 7 focs arbennig iawn fel rhodd gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Llond bocs o lyfrau Cymraeg newydd sbon! Roedd y plant wrth eu boddau a hoffwn ddiolch i bob un sydd wedi cyfrannu a diolch i'r CRHA am drefnu.

Mae ganddom dŷ bach pili pala ym mhob dosbarth am yr hanner tymor. Mae'r plant wrth eu boddau yn sylwi ar newidiadau'r lindys bob bore ac yn mawr obeithio gweld 5 pili pala yn fuan!

**Uned Dan 9**

Rydan ni wrth ein boddau yn croesawu pawb yn ôl i'r uned, ac yn rhoi croeso cynnes i ambell deulu newydd hefyd i'n plith. Teithio yw ein thema ni y tymor yma, ac rydym wedi casglu llawer o syniadau am weithgareddau yr hoffem eu gwneud. Efallai bod rhai ohonoch chi wedi ein gweld yn cynnal arolwg traffig y tu allan i'r ysgol yn ddiweddar. Cawsom gasglu llawer o ddata a chreu graffiau ar chromebooks newydd yr uned.

Mae ein gardd yn yr uned yn dechrau siapio a byddwn yn dechrau clwb garddio ar ôl ysgol hefyd. Wythnos yma rydym wedi plannu tatws a hadau blodau haul. Tybed pwy fydd gan y blodyn haul talaf erbyn yr haf? Rydym hefyd yn ceisio edrych ar ôl, a denu mwy o drychfilod bach yn yr ardd felly rydym ar hyn o bryd yn adeiladu gwesty crand ar eu cyfer!! Cewch luniau ar ôl i ni orffen. Diolch i'r rhieni sydd wedi cyfrannu at offer i'n gardd.

**Uned Dan 11**

Mae hi'n dymor newydd a chyffrous yma yn yr Uned dan 11 ac mae'r disgyblion (a staff) yn edrych ymlaen! Pencampwyr yw ein thema, ac rydym yn awyddus iawn i gyfarfod ein gwestai gwadd. Bydd Mark Williams yn dod atom i son am ei lwyddiannau yn y 'Paralympics' ac wrth gwrs ei fusnes 'LIMB-art' yr wythnos nesaf. Mae'r plant yn gyffrous iawn i weld pwy arall ddaw atom? Gareth Bale efallai?

Mae Blwyddyn 6 wedi bod yn gweithio'n galed er mwyn cyflawni cwrs beicio Lefel 1 a 2. Gwyliwch allan amdanyn nhw ar y ffordd o gwmpas Dinbych.

Cyn eich gadael chi, hoffem longyfarch Alys Wyn unwaith eto am ei cherdd fuddugol yn Eisteddfod yr ysgol ar y thema 'Gobaith'. Mae'n teimlo fel oes yn ôl, ond mae angen ei chanmol ac rydym yn gobeithio wnewch chi fwynhau darllen y gerdd fuddugol!

**GOBAITH**

Ar y buarth
chwarae tip a phêl droed.
Gwenu o glust i glust
gwirion bost
Chwerthin a hwyl
Rhy berffaith?
Ond daeth creulondeb i'r byd
Creadur ffyrnig anweledig
Covid-19, coronafeirws.
Medda rhai "Peidiwch a neud drama."
"'Mond yn China, ddaw o ddim i fama!"

Deffro. Teledu yn fflachio
"Breaking news"
Fel Chamberlain yn cyhoeddi yr Ail Ryfel Byd
Roedd y feirws wedi cyrraedd ni
Rhaid mynd i ryfel.
Nid brwydr arferol.
Nid gynnau, ond masgiau.
Adref ydi'r byncar
Bomiau'n lledaenu i bob cornel,
y creadur ffyrnig yn chwalu'r byd
yn anweledig o hyd.

Y gelyn yw'r feirws.
Pobol yn sâl, a bywyd yn ddiflas.
Y gelyn sy'n lladd.
Cleifion mewn ysbyty fel faciwis
Arwahan o'u teuluoedd
Ond does dim dewis.

Tu ôl i'r gwallt blêr
penderfyniadau gwirion!
Ysgol ar gau mewn eira
Ond ar agor mewn pandemig cas
Am syrcas!

Y golau trwy'r tywyllwch yw ein harwyr ni
Yr NHS
Milwyr y wardiau
Yn cario ffisig gobaith
Trechur'r gelyn
gyda'n gilydd ar y daith.


Alys Wyn

## Gwefan Y Bigwn

Erbyn hyn mae gwefan newydd y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i www.ybigwn.cymru





Mark Williams

**Dyma lun o Alys yn derbyn ei chadair. Yn anffodus, cawsom ni ddim seremoni ysgol gyfan eleni i gyfarch y bardd, ond yn sicr roedd yr haul yn gwenu pan ddaeth Alys i nôl ei chadair. Llongyfarchiadau am gerdd penigamp.**

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Twm o'r Nant

**Bu i Ysgol Twm o'r Nant droi yn 60 oed ym mis Medi 2020, a fe apeliwyd am gymorth i ddiweddaru casgliad llyfrau y gwahanol adrannau. Bu 'Anrheg Penblwydd Twm' yn apêl llwyddiannus iawn a carem fel Cymdeithas, ar ran disgyblion a staff Ysgol Twm o'r Nant, ddiolch yn fawr iawn i'r rhieni, teuluoedd, cyn ddisgyblion a ffrindiau a gyfrannodd i'r apêl. Codwyd £1217.50 i'r ysgol a diolch yn fawr iawn i Siop Clwyd am eu cymorth i gyflenwi y llyfrau.**

**Ein hymgyrch arall i godi arian yw cymryd rhan mewn loteri wythnosol 'Your School Lottery' ac er mwyn sicrhau eich tocyn i gael cyfle i ennill y wobr ysgol wythnosol neu y jacpot cenedlaethol, ewch i'r wefan tinyurl.com/lototwm.**

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth. Os hoffech ein dilyn ar Facebook - CRhA Ysgol Twm o'r Nant PTA neu Trydar @crhatwm**

CATalyst Systems - 01745 816611
Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk

**Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)**
**Sganwyr llaw - Systemau CCTV**
**Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G**
**Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk**
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA




# Mae Rhywbeth Bach yn Poeni

**Hysbysebion**

**Rydan ni'r Cymry yn meddwl - yn union fel trigolion gwlad y medra' - y gallwn ni droi'n llaw at bopeth. Wel, mae yna un peth yn bendant na fedrwn ei gyflawni'n foddhaol heb sôn am ei wneud o'n dda – cynhyrchu hysbesbion ar gyfer y teledu. Does ryfedd eu bod nhw'n bethau mor brin.**
**Y siom ydy' nad ydyn nhw wedi gwella dim dros y blynyddoedd.**
**Na, nid y lluniau sy'n sâl. Maen nhw'n ddi-fai.**
**I'r gwrthwyneb yr elfen lafar ydy'r gwendid gyda'r gorbwyslais ar eiriau neu'r ymgais i swnio'n ddiffuant yn atgoffa rhywun o'r adran lefaru dan 8 oed yn yr Eisteddfod Gylch.**
**Mae'r cyfan yn swnio mor annaturiol gan roi'r argraff mai ar frys y gwnaed y cyfan ac nad oes neb yn d'eud, "Fe wnawn ni hwnna eto. Ceisia ymlacio ac anghofia am y camera."**
**Diwedd y gân ydy'r geiniog, mi wn, ond siawns y gall gwlad y gân daro deuddeg yn awr ac yn y man wrth greu hysbysebion.**
**Gyda llaw, rhag ofn nad ydych chi'n gyfarwydd â'r ymadrodd, gwlad y medra' ydy'r ymadrodd a ddefnyddid am drigolion Sir Fôn gan bobl ardaloedd y chwareli yn Sir Gaernarfon.**

**Llathen o Gownter**

**Digwydd edrych ar rywbeth ar y we yn ddiweddar – tydi pawb ohonom ni'n g'neud hynny y dyddiau hyn – a darganfod ail ran a tharddiad y dywediad sydd yn dechrau gyda'r geiriau uchod.**
**Y dywediad yn llawn ydy, "Mae llathen o gownter yn well nag acer o dir."**
**Doeddwn i erioed wedi clywed yr ymadrodd yn gyflawn er wedi amau mai rhywbeth ar y trywydd hwn oedd o. Tueddiad pobl oedd d'eud, "Wel, ti'n gwybod beth maen nhw'n dd'eud am lathen o gownter," a'i gadael hi'n fan 'na.**
**Ei darddle mae'n ymddangos ydy' pentref o'r enw Y Groeslon ar gyrion Dyffryn Nantlle.**
**Ar un adeg roedd yna nifer o siopau bychain yn y pentref, yn union fel petai rhai oedd yn berchen ar barlwr wedi troi'r ystafell honno yn fan i gynnal busnes.**
**Roedd y siopau hynny yn bur llewyrchus. O ganlyniad fe wnaeth rhywun gymharu sefyllfa'r rhai oedd yn rhedeg siop â'r ffermwyr druan, a gweld mai da oedd.**
**Wel, yn ystod y tri mis ar ddeg diwethaf mae hi wedi bod yn o fain ar berchnogion siopau, yn arbennig y rhai sydd yn berchen ar fusnes bychan a ystyrir yn y categori "nad ydyn nhw'n hanfodol."**
**Fyddwn ni ddim yn gweld unrhyw fai arnyn nhw am godi'u prisiau, yn arbennig siopau trin gwallt a thriniaethau harddwch.**
**Tra bod nhw wedi gorfod palu'n ddwfn i'w cyfrif banc i gael dau ben llinyn ynghyd, y mae cynilion llawer ohonom wedi cynyddu'n sylweddol. Yr amcangyfrif ydy' bod yna chwe miliwn ohonom ym Mhrydain gyda mwy o bres yn ein cyfrifon banc nag oedd gennym ni flwyddyn yn ôl.**
**Stan Lyall**

# Holi a Stilio yng nghwmni Nia Jones



**Mae Nia yn enedigol o Fae Colwyn ac wedi byw yn Ninbych ers 2012.**
**Yn 2019 sefydlodd ei chwmni 'Traed Fyny' sy'n annog unigolion i wneud yn union hynny sef i roi'u traed fyny, derbyn triniaeth holistig a helpu eu hunain i wella. Mae bywyd sawl un ohonom yn rhuthro heibio, ond mae'n bwysig ymlacio a rhoi'ch hunain yn gyntaf o bryd i'w gilydd.**

**Sonia ychydig am dy gefndir.**

Dwi'n wreiddiol o Fae Colwyn, yn ferch i athrawes a pheintiwr ac addurnwr ac yn chwaer fach i fy nau frawd. Dwi bellach wedi ymgartrefu yn Ninbych, yn fam ac yn wraig ac yn rhedag fy musnes fy hun. Cefais fy addysg uwchradd yn Ysgol y Creuddyn cyn derbyn gradd Dosbarth Cyntaf wedyn ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth, mewn Theatr Ffilm a Theledu. Penderfynais wedi sawl blwyddyn o weithio i bobl eraill nad oedd gen i awydd gwneud hynny am byth, felly es ati i astudio fel Adweithegydd Clinigol pan oedd y fenga o'r ddau blentyn ond cwta chwe wythnos oed, a pheidio difaru fy mhenderfyniad, dim ond y ffaith nad oeddwn wedi gwneud hyn ynghynt!

**Sonia fwy am 'Traed Fyny.'**

Fy mreuddwyd, fy musnes a fy mhensiwn (!) ydy Traed Fyny. Rwy'n arbenigo mewn Adweitheg Clinigol ar y traed, dwylo a'r wyneb ac wedi fy nghymhwyso i'r radd uchaf bosib. Rwy'n cynnig triniaethau holistig, proffesiynol a chyfeillgar o fy 'stafell driniaeth yn Ninbych ac ers y llynedd yn rhithiol hefyd. Dwi fwyaf hapus pan y byddaf yn gallu helpu pobl eraill. Does na'm un triniaeth yr un fath, mae pob triniaeth wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion iechyd a lles cleientiaid.
Adweitheg yn syml ydy adnabod mannau penodol o ddiffyg cydbwysedd yn y corff ac mae hynny yn gallu bod ar yr ochr emosiynol a /neu yr ochr gorfforol. Rydw i'n amrywio sut byddaf yn gweithio ond, drwy ddefnyddio'r technegau unigryw drwy'r bysedd a'r bodiau, neu weithio jyst oddi wrth y traed, byddaf yn gallu teimlo'r anghydbwysedd a helpu'r corff i gydbwyso. Mae'r traed, dwylo a'r wyneb yn ymdebygu i fapiau o'r corff. Mae modd darganfod sawl peth am gyflwr iechyd a stad emosiynol unigolyn drwy'r traed, dwylo a'r wyneb.

**Sut mae'r cyfnod clo wedi effeithio arnat ti ac ar 'Traed Fyny'?**

Fel sawl un dwi'n siwr, mae wedi bod yn gyfnod heriol. Mae 'na gyfnodau o bryderu wedi bod yn amlwg a rhai dyddia' lot gwell na'i gilydd, ond hefyd, mae'r cyfnod wedi rhoi digon o gyfleoedd i fod yn bositif, i fwynhau gweld y plant yn tyfu ac i wasgu'r brêc ar fywyd.
Teimlais yn gynnar iawn ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf fod gen i ddau ddewis; sef derbyn y sefyllfa ac eistedd yn ôl, neu mynd amdani a meddwl am ffyrdd eraill o allu cario 'mlaen i weithio a thrwy hynny'n amlwg i barhau i helpu pobl eraill.
Doedd gen i ddim dewis ond i gau fy nrws i'r stafell driniaethau "hands on" fel →


PyBj



GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

/gwasg.com PRINT
ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO
Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

petai ond fe arweiniodd hynny at y cyfle i agor y drws rhithiol!

Es ati yn eitha' sydyn i greu fideos bach hunan-ofal i rannu efo un ac oll. I ddweud y gwir roedd rhain ar fy rhestr "to do" ers talwm ond doedd gen i fyth yr amser i'w gwneud yn iawn. Roedd cadw momentwm a pharhau i helpu yn bwysig iawn i mi, ac roedd derbyn negeseuon o ddiolch o bedwar ban byd yn golygu'r byd. Mae'r pandemig wedi bod yn gyfle gwych i roi'r ffocws yna'n ôl arna ni'n hunain.

Yn rhyfedd ddigon prin iawn oedd yr amser oedd gen i i roi nhraed fyny oherwydd mi ddôth yna gyfle i mi gychwyn busnes bach arall sef bod yn Ymgynghorydd Annibynnol i Neal's Yard. Mae meddylfryd ac ethos y cwmni yn debyg iawn i f'un i, sef cefnogi lles ac iechyd unigolyn o'r tu mewn am allan – a bellach mae gen i silffoedd a'r silffoedd o gynnyrch at bob math o bethau dwi'n eu gwerthu o fy stafell driniaeth!

Dwi'n meddwl i mi fod wedi cynnal dros hanner cant (os nad mwy) o nosweithia' rhithiol, lle mae'r unigolyn yn cael y cyfle i samplu rhai o gynnyrch Neal's Yard (wedi eu postio atynt o flaen llaw) a dysgu rhai o bwyntiau adweitheg hunan-ofal ar y wyneb a'r dwylo. Roedd y syniad o ymlacio, rhoi'u traed fyny a rhoi'r ffocws yn ôl arnyn nhw'u hunain yn apelio'n fawr i nifer o bobl oedd wedi laru ar fod yn rhan o gwis Zoom!

Dwi'n sicr am wneud y gora' o bob cyfle i fynd i lefydd ac at gynigion gwaith 'heddiw', yn hytrach na'i roi o'r neilltu, does wybod be' ddoith yfory i ni.

**Beth ydi dy atgof cyntaf?**

Dwi'n cofio crio yn sobor iawn am na chefais i sws ta-ta gan mam un bore yn yr ysgol gynradd! Roedd y diwrnod yn teimlo'n goblyn o hir, a doedd neb yn gallu gwneud i mi deimlo'n well y diwrnod hwnnw nes y cefais i sws!

**Pa dri lle sy'n bwysig ichdi?**

Anodd dewis! Mae sawl lle ac ardal yn cario sawl atgof ond does na'm curo ar fy ngwely! A'r ddau arall…. mi ddweda'i, Pen Llŷn oherwydd atgofion gwyliau teulu lyfli a dwi'n siwr fod y machlud haul yn fwy hudolus ffordd yno nag ydy o yma! A'n ola'… Canolfan Fwyd Bodnant lle briodon ni. Y golygfeydd godidog, y bwyd a'r atgofion cynnes iawn o ddiwrnod perffaith yng nghwmni teulu a ffrindia' arbennig.

**Be sydd wedi achosi'r embaras mwyaf ichdi?**

Roedd gen i eisiau bod yn glown ar raglen "Fe hoffwn i" gyda Mici Plwm s'llawer dydd – mae gweld fy hun ar y teledu, heb fodolaeth straighteners nac unrhyw fewnbwn i'r dewis o ddillad roeddwn i'n eu gwisgo yn dod â chywilydd mawr i mi!

**Pwy ydi'r person mwyaf diddorol rwyt ti wedi ei gyfarfod/chyfarfod?**

Ziggie Bergman! Ma'r enw ei hun yn siarad cyfrola. Ziggie ydy'r wyneb a'r enw tu ôl i Zone Face Lift. Adweithegydd Wynebol o fri yn cynnig ei harbenigedd mewn sesiwn awr gostith, £185 neu dros £2000 am gwrs o 12 sesiwn lawr yn Llundain! Roedd hi'n fraint fel y gallwch ddychmygu i dderbyn hyfforddiant Adweitheg Wynebol "hands-on" ganddi mis Chwefror y llynedd a phan fydd y cyfyngiadau yn codi mi fyddai'n ôl yn ei chwmni i ddysgu mwy am sut i roi Face Lift naturiol i unigolion heb nodwydd nag unrhyw gemegyn ych a fi'n agos i'r croen. Mae gwreiddiau teuluol yr Indiaid Cochion ynddi ac mae'n wybodus am egni, crisialau a ffyrdd naturiol ac anhygoel o barchu'n iechyd a'n cyrff. Dwi'n addo, wedi cymhwyso eto i wneud y Zone Face Lift, ni fydd fy mhrisiau i ddim byd tebyg i'w rhai hi!

**Beth sy'n mynd o dan dy groen?**

Baw ci yn cael ei adael ar hyd y lle; gwaeth fyth pan dwi'n gweld peth mewn bag yn hongian yn y gwynt oddi ar goeden! Wir yr, be' sy'n mynd drwy feddwl bobl? Ych!

**Sut fyddi di'n treulio dy oriau hamdden?**

Dwi'n hoff iawn o chwarae pel rwyd a mynd i ddosbarthiadau ymarfer corff ac ar dân i rheini gael ail ddechrau yn iawn eto. Yn y cyfamser dwi'n hoff o grwydro a darganfod llefydd gwahanol i gerdded gyda'r teulu a'r ci. Dwi'n trio trawsnewid 'chydig bach ar y tŷ 'ma hefyd – ma'r "hall" bron â gorffen rwan a dwi'n meddwl mai'r 'stafell ymolchi fydd nesa. Dwi'n methu ymlacio yn y bath yn iawn pan dwi'n gweld gwaith sy' angen ei neud!

**Pa gyngor fuaset yn ei roi i Brif Weinidog?**

I fod yn glên efo fo'i hun – does ganddo ddim y swydd mwya' hawdd yn y byd. Dwi'n siwr fod gan nifer fawr ohonom ein barn personol am ei benderfyniadau ond, nifer fechan iawn ohonom fydda'n ffeirio lle efo fo.

**Pa fath o raglenni teledu sy'n rhoi'r pleser mwyaf ichdi?**

Rhai ditectif/trosedd.

**Oes llyfr wrth erchwyn y gwely ar hyn o bryd?**

Oes un lliwio! Wrth fy modd yn lliwio; amser i lonyddu'r meddwl wrth liwio.

**Oes gen ti gynlluniau ar gyfer 2021?**

Gobeithio gallu agor fy nrysau am gyfnod lot hirach na ma' nhw wedi bod. Cynnig fy ngwasanaethau mewn mwy o weithleoedd neu mewn sefydliadau megis tai cysgodol. A pharhau i ddysgu a mynychu Cwrs Adweitheg yn benodol ar gyfer Beichiogi/Menapos a chael cymhwyster i fedru darllen traed (yndy mae'n wir, mae modd gwneud hyn!) fel mae rhai yn gallu darllen dwylo neu ddarllen mwy am berson drwy ddail tê ar waelod cwpan! O…heb anghofio - rhoi sylw i'r 'stafell ymolchi.

**Be ydi dy hoff air?**

Sbigoglys!


Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
Yn gweithio i gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych



BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

# Cofio Mathonwy

**Dw i'n siwr fod llawer o ddarllenwyr Y Bigwn yn cofio'r Prifardd Mathonwy Hughes, 'y gŵr tal a'r wên barod.' Gallt y Coed ar yr allt oedd cartref Mathonwy a Mair a phan ymwelai R. M.(Bobi) Owen i'w gweld, Math fyddai'n ateb y drws gyda'r cyfarchiad,'Wel, tyrd i mewn, machgen i, tyrd at y tân iti gynhesu,'a gwên fel giât ar ei wyneb annwyl.**



Gallt y Coed

**Er mai brodor o Ddyffryn Nantlle oedd Mathonwy, mae'n debyg mai gyda thref Dinbych y'i cysylltir yn bennaf am iddo dreulio y rhan helaeth o'i oes yma yn y dref yn Is-Olygydd Baner ac Amserau Cymru gyda Gwasg Gee o 1949 tan 1977. Yn 1956, enillodd y Gadair Genedlaethol yn Aberdâr am awdl ysgafn 'Gwraig' a chyhoeddodd bedwar casgliad o gerddi, pedwar casgliad o ysgrifau, hunangofiant a chyfrol ar waith ei gyfaill, y Prifardd Gwilym R. Jones.**

**Yn ddiweddar yn Nyffryn Nantlle cynhaliwyd gŵyl rithiol 'Yn ol i**




**Frynllidiart' i ddathlu 120 mlynedd ers geni Mathonwy yn 1901 a 150 mlynedd ers geni ei ewythr, R. Silyn Roberts yn 1871 – dau brifardd a anwyd yn yr un tyddyn diarffordd o'r enw Brynllidiart, y tyddyn uchaf ar ochr dde Dyffryn Nantlle ar lechwedd Cwm Silyn uwchben Tan'rallt ym mhlwyf Llanllyfni ac ar ochr i'r dyffryn sy'n wynebu pentref Tal-y-Sarn. Ffarm unig ac anghysbell ar silff o gorsdir wrth odre'r mynydd ar ucheldir llym a moel yw disgrifiad o'r lle. Mae'r tyddyn yn furddun ers sawl degawd bellach.**



Brynllidiart 2021

**Roedd fy hen daid, John Roberts, yn frawd i Ellen (Nel), mam Mathonwy ac mi gafodd yntau ei eni ym Mrynllidiart.**

**Yn ôl Angharad Tomos, un o drefnwyr yr ŵyl,'Mae Brynllidiart ei hun i mi yn le sydd bron yn gysegredig. Mae'r tawelwch yn eich taro, mae'r olygfa yn anhygoel naill ai'r Wyddfa dan eira neu ar ddiwrnod gwanwynol lle mae copa Mynydd Mawr yn solet o'ch blaen a'r môr i'w weld yn glir. A dwi'n edrych ar yr adfail ac yn meddwl lle mor wych ydoedd i fagu bardd.'**

**Bu Carys a minnau ar ymweliad â Brynllidiart ar Ddydd Sadwrn y Pasg eleni a buom yn dyst i'r tawelwch ac i'r golygfeydd o'r mynyddoedd a'r môr dan awyr las las. Dyna be oedd golygfa!**

**Fel rhan o'r ŵyl Yn ôl i Frynllidiart cafwyd dwy sgwrs fer yn fyw ar Zoom, un ar Mathonwy gan Dr.Ffion Eluned Owen ac un ar Silyn gan Angharad Tomos. Hefyd dadorchuddwyd plac er cof i ddathlu prifeirdd Brynllidiart ac fe lansiwyd teithiau cerdded newydd o gwmpas Dyffryn Nantlle gan gynnwys teithiau i Fryn Llidiart o gyfeiriad Tan'rallt ac o gyfeiriad Nebo gan efelychu'r daith roedd Silyn a Mathonwy yn ei gwneud bob dydd i Ysgol Nebo o Frynllidiart. Mae Ysgol Nebo ar agor o hyd, gyda llaw. Bu Carys a minnau ar y daith hon o Nebo i Frynllidiart yn ddiweddar er mwyn cael rhyw syniad o be wynebai Mathonwy bob bore a nos o 7 oed ymlaen wrth iddo gerdded i'r ysgol.**



Brynllidiart 1926

**Byddai plant o'r tyddynod eraill yn ymuno ag ef ar y daith – tybed be oedd y sgwrs rhyngddynt!!**

**Aeth Mathonwy wedyn i Ysgol Clynnog ac mae'n nodi ei ddyled i ddosbarthadau Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA) a sefydlwyd gan Silyn ei ewythr. Daeth Mathonwy, maes o law, yn un o olygyddion Y Faner gyda Dr Kate Roberts a'r Prifardd Gwilym R .Jones. Hefyd daeth yn diwtor ei hun gyda'r WEA.**

**Rhan arall o'r ŵyl Yn ôl i Frynllidiart dan y teitl Doniau Creadigol Ysgol Nebo oedd dangos fideo a roddai gip ar y gwaith mae disgyblion Ysgol Nebo wedi bod yn ei wneud yn ddiweddar wrth ddysgu am Silyn, Mathonwy a Brynllidiart. Byddai'r ddau brifardd wrth eu boddau yn clywed plant Nebo heddiw yn darllen rhai o'u cerddi a'u geiriau.**

**Daeth y gorffennol yn fyw rywsut wrth imi gerdded i Frynllidiart eleni ac wrth ddarllen y geiriau ar y plac yn enwedig ar ôl darllen hunangofiant Mathonwy,'Atgofion Mab y Mynydd' a 'Cofio Mathonwy.'**

**Er iddo wreiddio ym mhriddyn – ein bro,**
**A dwyn bri i'n Dyffryn,**
**Daw i'w gof y cyfnod gwyn**
**Yn nhawelwch Cwm Silyn.**

**Un oedd ei fywyd a'i waith – her ei swydd**
**Oedd crwsâd yr heniaith;**
**Rhoddodd ei gyfan ganwaith,**
**Rhoi ei oll er mwyn yr iaith.**


**John Glyn Jones**
**(Y Prifardd Mathonwy Hughes yn 90 oed)**

**Cefais wefr!**
**Cofiwch anfon atom eich atgofion o Mathonwy.**
**Erfyl**




Protest Tryweryn 1965

# Dwy gyfrol Arwel Emlyn.



**Y Parchedig George Emlyn Jones. Achubwr y Goleuni. Un o Blant y Groes.** yw pennawd y ddwy gyfrol.

Mae Arwel yn hen gyfarwydd i ni fel bardd sydd wedi ennill gwobrau, tariannau a chadeiriau mewn eisteddfodau mawr a bach gan gyfoethogi ein papur bro Y Bedol yn gyson gyda'I waith yn arbennig wedi iddo ymddeol. Y gynghanedd sydd yn mynd â'i fryd yn bennaf, ond mae yr un mor gynhyrchiol bellach yn y mesur rhydd fel y gwelir yn ei gyfrol gyntaf o`r ddwy, **Cerddi Atgof.** (40 tud) sef ei gofiant barddol i`w ddiweddar annwyl dad, y Parch. George Emlyn Jones. **Dyfyniadau a dywediadau** (70 tud) o bregethau ei dad sydd yn yr ail gyfrol, cyfrol sy`n dangos fod yr elfen farddol yn perthyn i`w Dad gyda'i hoffter o'r gymhariaeth fachog, a lliwgar ar dro.

Y mae`r ddwy gyfrol yn enghraifft o Arwel yn arallgyfeirio wedi ymddeol sef cyhoeddi llyfrynnau. Y gyfrol gyntaf fel cyhoeddwr oedd casgliad o englynion gan **Dafydd Jones, Clytiau Gleision,** ac yn annisgwyl iawn casgliad o f'englynion innau. Yn anaml iawn y cewch chi ddwy gyfrol yn cael eu cyhoeddi fel efeilliaid, neu fel llaw a maneg, ond dyna fenter cyhoeddi ddiweddara Arwel.

Yn y gyfrol o ddyfyniadau cyfoethog ac amrywiol cawn bortread o'r pregethwr a'i ffordd o gyflwyno ei neges. Mae hon yn gyfrol fwy gyda 70 tudalen. Mae yna emynau ac adnodau yn cael eu dyfynnu, yn ogystal â dyfyniadau gan awduron amrywiol fel Awstin Sant, beirdd fel Cynan a Gwenallt, a phregethwyr megis J.W.Jones, Conwy. Cawn englynion, dywediadau, hanesion, a chymhariaethau amrywiol a chyfoethog iawn, ac wrth gwrs pob un yn hynod bwrpasol. Hefyd ceir ambell i air o brofiad ac ambell stori ddifyr. Y cyfan, wrth gwrs, er mwyn gyrru'r neges adra.Yn amlwg hefyd mae yma atgofion sydd yn ddarluniau a sylwadau byw o eiddo`r Parch. George Emlyn Jones ei hun. Mae ganddo bennau gwreiddiol a grymus i`w bregethau: Crud gwag, Croes wag a Bedd gwag. (Pregeth ar Yr Atgyfodiad). Mae dywediadau bachog, cofiadwy yn britho'r gyfrol. Haera mai'r gwir ffocws yw "Nid gweld y Crewr yn y cread ond y cread yn y crewr." O'i brofiad o Abersoch a`r bad achub, gwnaiff y sylw trawiadol hwn. "Yr un anoddaf ei achub yw yr un sydd yn ceisio achub ei hun!"

Yn fonws ar ddechrau`r gyfrol ceir cadwyn o englynion grymus eu hangerdd o waith Arwel i'w dad, yr union englynion sydd yn cloi **Cerddi Atgof.** Os ydych am fwynhau y perlau eraill yn y gyfrol pryner hi ac ni chewch eich siomi. Yn fwy na hynny gellir pori ynddi hi dro ar ôl tro yn ôl eich cyfle.

**Cerddi Atgof** yw y fwyaf gwreddiol ei chynnwys gan fod teyrnged dyner Arwel i`w ddiweddar dad ar yr un pryd yn rhyw fath o gofiant iddo. Atgof ydyw`r teitl hynod addas gan mai atgofion yr awdur ydynt ar adegau arbennig ym mywyd ei Dad. Ac nid o anghenraid mewn trefn amseryddol. Yn rhedeg yn ogystal â thynerwch drwy`r gyfrol, mae dwyster a hiwmor tawel sy' rhoi mynegiant i berthynas arbennig iawn rhwng tad a mab. Mae cystudd ei Dad sydd yn cael gofod helaeth yn datguddio dyfnder y berthynas arbennig honno.

Yn y gerdd gyntaf un Groes mae Arwel yn ein hatgoffa ni o`i Dad yn cymhwyso pentref Groes ei fagwraeth ger Dinbych at Groes Crist.

"A bod yn un o blant Y Groes
Oedd ei neges hyd ei oes."

Yna cawn Arwel yn dilyn ôl troed ei dad yn chwarae condyctyr bys.

"Ond neges Iesu Grist sy'n fwy
Na chondyctio bysus bach y plwy
Ac ar hyd y ddaear lawr
Condyctiodd ef y Condyctor Mawr"

Yn y pennill hwn mae Arwel yn defnyddio techneg a ddefnyddiai ei dad yn ei bregeth wrth gyfeirio at "y Condyctor Mawr". Mae'r llythrennau bras yn cyfleu`r cyfan.

Y gerdd sy`n cyfleu trobwynt ingol yn hanes afiechyd ei dad yw`r gerdd i Ward 19 Ysbyty Glan Clwyd:

"Un nyrs, dim ond un nyrs
Oedd yn ceisio ei gael i eistedd
I fyny a hynny achubodd ei fywyd
Ar y pryd."



Lilian ac Emlyn

Yna disgrifir y broses hir o fedru cerdded eto gyda chymorth pulpud.

"Ychydig hirach, bob dydd,
Megis cam ceiliog
Nes iddo roi cam efo ffr[illegible]m,
Pulpud, pulpud fel arferai bregethu
ynddo!"

Dyna Arwel eto yn rhoi tro i ystyron geiriau fel ei dad o'i flaen.

Y gerdd sy`n cyfleu un o argyhoeddiadau dyfnaf ei Dad yw Yr Ymwrthodwr Cydwybodol" sy`n disgrifio ei safiad ef a'i ffrind Y Parchedig Eifion Jones yn eu gwrthwynebiad cydwybodol i ryfel pan nad oedd gwneud y fath safiad yn dderbyniol gan lawer.

Mynychodd y ddau dreibiwnal. Yn ganlyniad i hynny caed eu gweinidog Y Parch. J.H.Griffiths oedd yn Heddychwr ei hun

"Yn tynnu coes
A bygwth oes
O garchar o'i flaen,
Ond ymlaen yr aeth,
Ef ac Eifion,
Cyfeillion."

Y canlyniad oedd treulio dwy flynedd yn coginio yn Ysbyty Llangwyfan:

"A hynny yn golygu
Gallai goginio
Cinio Dydd Sul
Ar ôl bwydo y praidd."

Cloir y gyfrol hon gydag emyn tyner (penillion?) gan fam yr awdur.

Credaf mai mantais fyddai pori yn y dyfyniadau yn gyntaf ac yna troi at y cerddi atgof, yn arbennig os am synhwyro fod peth o`r bardd ym mhregethau ei dad, a fod dychymyg creadigol y pregethwr i`w ganfod yng ngherddi`r mab.

Yn fonws mae`r awdur wedi cynnwys lluniau yn y ddwy gyfrol, ond fod y lluniau **Cerddi`r Atgof** yn amlach am resymau amlwg. Dwy gyfrol i fyfyrio ynddynt a throi iddynt dro ar ôl tro. Ac fe ddiolchwn i`r awdur am y ddwy deyrnged deilwng iawn i`w dad a wnaeth ddiwrnod da o waith dros Eglwys Iesu Grist fel un o blant Y Groes.

**Y Parch John Owen, Rhuthun.**

# Difyrion Digidol

Gyda chyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg yn 1588 gan yr Esgob William Morgan ynghyd â chyfieithiadau gramadeg John Davies, Mallwyd, mae haneswyr ar y cyfan yn gweld y digwyddiadau a'r cyfnod hwn yn hynod o arwyddocaol yn hanes a goroesiad yr Iaith Gymraeg. Yn ogystal â'r cerrig milltir hyn, gyda'i ysgolion cychlynnol yn y ddeunawfed ganrif, sicrhaodd Gruffudd Jones, Llanddowror fod llythrennedd yn cael ei gyflwyno i werin gwlad a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Gan wibio mewn peiriant amser i'r ugeinfed ganrif, gwelwn yn 1960au ffrwydrad cerddoriaeth Gymraeg, gyda artistiaid blaenllaw fel Dafydd Iwan a Huw Jones yn esgor ar Sin Gerddoriaeth Gymraeg ffyniannus sydd dal gyda ni heddiw. Slogan Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ers hynny yw 'Popeth yn Gymraeg'. Beth ymhlith y rhain sy'n berthnasol gyda'r byd digidol? Gan wibio eto i'r unfed ganrif ar hugain, gwelwn chwyldro arall yn digwydd, y chwyldro digidol, ble bydd y Gymraeg yn gorfod esblygu a goroesi unwaith yn rhagor.

Er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn cofleidio'r byd digidol, mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ddiweddar wedi galw am sefydlu menter iaith ddigidol er mwyn datblygu cynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, beth sydd ar gael ar hyn o bryd? Mae yna sicr fylchau mawr ond ar y llaw arall mae yna hefyd doraith o gynnwys ar gael yn Gymraeg. Mae'n holl bwysig ein bod yn ei defnyddio! Dwi'n siwr eich bod yn gyfarwydd iawn gyda llawer o'r adnoddau a'r gwefannau sy'n bodoli eisoes. O ran y newyddion, wrth gwrs, fe ellir darllen gwefan https://golwg.360.cymru/ neu https://bro.360.cymru/ i ddarllen newyddion o'ch milltir sgwar. Mae www.Lleol.cymru yn ffordd dda o gadw llygaid ar newyddion lleol a chenedlaethol heb son am chwilio am swydd lle mae'r Gymraeg yn angenrhediol. Datblygiad newydd iawn ydi dyfodiad ap newydd newyddion S4C sydd yn wasanaeth cwbl newydd. Gellir llwytho'r ap ar Google play trwy'r ddolen hon: https://play.google.com/store/apps/details?id=cymru.s4c.newyddion

Un o wefannau mwyaf y Gymraeg yw BBC Cymru Fyw, ceir yno lond gwlad o erthyglau, cyfweliadau ysgrifenedig ac eitemau fideo o'r ysgafn i'r difrifol i gyd mewn un lle https://www.bbc.co.uk/cymrufyw Digon i'ch cadw'n brysur am oriau.

Gwasanaeth fideo poblogaidd tu hwnt yw Hansh https://www.facebook.com/hanshs4c/ sy'n profi'n boblogaidd iawn, ble y trafodir pob mathau o bynciau mewn ffordd gynnil a difyr. Mae Hansh wedi gweld cannoedd o filoedd yn clicio ar ei fideos megis y cogydd Chris Roberts o Gaernarfon.

Mae'n werth hefyd croesawu gwefan newydd wych y Papurau Bro sy'n brosiect ar y cyd gyda Mentrau Iaith Cymru https://papuraubro.cymru/ Ewch yno i chwilio am eich papur bro chi.

Yn ystod y cyfnod clo, mae'r ap a'r platfform cymunedol Ambobdim wedi sefydlu'i hun ymhlith y platfformau mwyaf poblogaidd yn y Gymraeg yn darlledu cyngherddau, cyfweliadau, gigiau, gwyliau gan ddiddanu pobl o foethusrwydd eu soffa. Mae'n werth galw heibio ar wefan Ambobdim https://www.amam.cymru/ambobdim i weld beth sydd ar y gweill. Mae'n wefan brysur tu hwnt sy'n llawn o gynnwys diddorol.

Heb anghofio am yr holl gynnyrch sydd hefyd ar wefan ffrydio cerddoriaeth http://www.spotify.com , neu http://www.youtube.com , boed yn gerddoriaeth Gymraeg neu'n archif ffilm, neu'n wefannau fel Llên Natur ar Facebook. Er mwyn cael mynediad i'r holl bodlediadau Cymraeg sydd ar y We, ewch i'r https://ypod.cymru/. Mae gwefan http://Meddwl.org er enghraifft yn llawn o gynnwys hanfodol ar gyfer hybu eich iechyd meddwl. Mae ôl yr Iaith Gymraeg yn sylweddol ac mae'n hanfodol ein bod fel siaradwyr yn defnyddio'r adnoddau hyn – I ddechrau mae yna rywbeth at ddant pawb ac mae'r cynnwys yn berthnasol iawn.

Er hynny, mae angen mwy o gynnwys a mwy o blatfformau i apelio at y genhedlaeth yma a'r genhedlaeth nesaf. Rydym fel diwylliant yn cystadlu yn erbyn diwydiant enfawr eingl-americanaidd, ac heb yr adnoddau ariannol anferth, mae'n dalcen caled i fedru cystadlu. Ond mae'n rhaid bwrw 'mlaen ac mae'n wir i ddweud ein bod yn llwyddo er gwaetha cyn lleied o adnoddau. Mae gan lywodraeth rôl yma i fuddsoddi ac ysgogi hyn trwy greu'r amodau er mwyn creu cynnwys newydd a sicrhau fod y Gymraeg yn berthnasol yn y byd digidol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gaddo fod hyn yn rhan o weledigaeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 gyda phwyslais sylweddol ar y digidol – y gobaith yw y byddant yn gweithredu ar eu gair i fuddsoddi a datblygu arloesedd ond mae yna ddyletswydd arnom fel siaradwyr Cymru yn gyffredinol i greu cynnwys a chreu platfformau newydd hefyd. I fachu slogan Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, mae'n rhaid cael 'Popeth yn Gymraeg' yn union fel y Beibl Cysegrlân dros bedair can mlynedd ynghynt.

Mae gan Cymunedau Digidol Cymru sesiwn 'Y Gymraeg ar y We' yn bwrw golwg ar yr adnoddau hyn, mae croeso i chi ebostio Cymunedau.Digidol@wales.coop i drefnu hyfforddiant am ddim.

**Deian ap Rhisiart**
**Ymgynghorydd Cynhwysiad Digidol**










Chydig fisoedd, ers sefydlu gwefan ac ymgyrch newydd sy'n rhannu syniadau ac ysbrydoliaeth am gryfder meddwl yng nghefn gwlad Cymru, mae tudalennau Nerth dy Ben wedi eu gweld dros 27,800 o weithiau a 3000 a mwy o bobl wedi ymweld â'r wefan.

Gyda'r sengl newydd 'Byw i'r Dydd' a lawnsiwyd i ddathlu Nerth Dy Ben, wedi ei chlywed bron i 9000 o weithiau, mae Alaw Owen sylfaenydd yr ymgyrch, sy'n wreiddiol o Landdoged yn falch iawn o'r llwyddiant ac yn gwerthfawrogi pob arwydd o gefnogaeth maen nhw wedi ei dderbyn wrth lawnsio a sefydlu.

Yn ôl Alaw sydd bellach yn byw yn Ninbych: "Mae'r tri mis diwethaf wedi bod yn anhygoel! Nes i erioed ddychmygu'r fath ymateb a'r negeseuon o gefnogaeth rydyn ni wedi eu derbyn. Mi rydyn ni mor ddiolchgar i gyfranwyr y wefan, y cerddorion a'r tîm o wirfoddolwyr am alluogi ni i wireddu'r freuddwyd o roi platfform digidol, yn y Gymraeg, i rannu'n profiadau a'n syniad ni o gryfder meddwl yn y gymuned wledig. Mae'n diolch ni'n fawr hefyd i Gronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd am ariannu'r cynllun ac am eu cefnogaeth nhw, yn ogystal â Menter Iaith Sir Ddinbych.

Pwrpas Nerth Dy Ben, a redir gan griw o chwech ohonon ni sy'n ffrindia' ac yn wirfoddolwyr, ydy rhoi llwyfan i unigolion rannu eu syniadaeth am gryfder meddwl, yn y Gymraeg, ac i sgwrsio am brofiadau ac ymdrechion o gynnal a chadw nerth meddyliol, tra'n byw a gweithio yng nghefn gwlad Cymru.

Dwi'n gobeithio bod Nerth Dy Ben yn cynnig lle i danlinellu a sgwrsio am y pethau mae pobl yn eu cyflawni a'u goresgyn yn ddyddiol. Dwi'n gweld pwysigrwydd cyfrannu a sgwrsio'n agored a naturiol am gryfder meddwl a rhannu'r pethau bychain yna rydyn ni'n eu gwneud i sicrhau bod y meddwl mor gryf ac y gall fod.

Mae holl gynnwys y wefan, gyda chyfraniadau gan amaethwyr a phobl cefn gwlad, yn trafod y cryfder meddwl sydd gennym ni fel unigolion. Gall y straeon hynny amrywio o godi'n fore i ffermio, i gamu ar gae chwarae rhyngwladol i gynrychioli gwlad.

I rai pobl, efallai eu bod yn cymryd cryfder meddwl yn gwbl ganiataol, ond i eraill mae nhw'n ei ffeindio hi'n anoddach i roi sylw i'r cryfderau, yn hytrach na'r gwendidau.

Anaml iawn y byddwn ni'n eistedd yn nôl ar ddiwedd diwrnod neu wythnos brysur ac yn cydnabod yr hyn yr ydan ni wedi llwyddo i'w gyflawni ar y rhestr 'to do' ynde? A faint ohonom ni sydd mewn gwirionedd yn gwneud y gwrthwyneb sef canolbwyntio ar y pethau sydd eto i'w wneud, a hyd yn oed yn ychwanegu at y rhestr yn hytrach na dathlu'r hyn sydd wedi ei gyflawni?

Nôd Nerth dy Ben ydy creu sgwrs sy'n clodfori a dathlu ein gallu a'n cryfder i oresgyn heriau bach a mawr bywyd, ac i'n hannog ni i feddwl am y pethau rydan ni'n ei wneud i gadw nerth ein pen yn gryf ac yn iach. Mae hynny'n amrywio i bawb – i mi, mae cerddoriaeth yn un o'r pethau sy'n cynnal fy nghryfder meddyliol, ac felly roedd rhyddhau cân i gynrychioli neges Nerth dy Ben yn gam naturiol a phwysig.

Gobeithio eich bod wedi clywed 'Byw i'r Dydd', y sengl a grëwyd fel rhan o lansiad y prosiect. Cyfansoddwyd y gân gan yr amryddawn, Rhydian Meilir gyda'r bardd Ffion Gwen, o Lannefydd yn cydweithio â Rhydian efo'r geiriau. Y cerddor dawnus, Mei Gwynedd gynhyrchodd y sengl ac mae hi i'w chlywed ar BBC Radio Cymru ac ar gael i'w lawrlwytho ar iTunes a'r platfformau arferol gyda chyfran o bob lawrlwythiad yn dod yn ôl i ariannu'r ymgyrch a phrosiectau nodedig. Roeddem ni'n andros o ffodus i gael cantorion adnabyddus a thalentog yr ardal leol i berfformio a recordio'r sengl (dwi dal i 'binsho' fy hun hyd heddiw eu bod nhw wedi bod mor barod i'n cefnogi ni ac i fod yn rhan o'r holl beth!) Pump artist – Arwel Lloyd Owen, Mared Williams, Jacob Elwy ac ella'n fwy perthnasol i ddarllenwyr Y Bigwn, Dan Lloyd sydd o Landyrnog a Celyn Llwyd Cartwright sydd o Ddinbych wrth gwrs! Yn ogystal â'r lleisiau unigol, fe fuon ni'n ffodus i ddefnyddio cyfleusterau Canolfan Gymunedol Eirianfa, i'n galluogi ni i recordio rhai aelodau o Gôr Aelwyd Dyffryn Clwyd i gynrychioli'r côr gan nad oedd posib cael yr aelodau i gyd oherwydd cyfyngiadau Covid! Ond y gobaith ydy y daw cyfle i'w pherfformio hi'n fyw, pan fydd y sefyllfa'n caniatáu inni wneud hynny.

Ein bwriad ydy parhau i godi ymwybyddiaeth a sgwrsio am y pwysigrwydd o gynnal meddwl cadarnhaol. Trwy rannu profiad a meddylfryd pobl o fewn y gymuned wledig, dwi'n gobeithio ei fod o'n ffordd o atgoffa'n gilydd o gryfder meddwl bob un ohonom a'r hyn rydyn ni'n gyflawni'n ddyddiol wrth ddefnyddio'r cryfder hwnnw.

Ac wrth i mi orffen traethu, dwi am ofyn i chi gyd gymryd ychydig o funudau i feddwl am yr hyn rydych chi wedi ei gyflawni heddiw, dim bwys pa mor fach neu fawr, yr un ydy'r llwyddiant! A chofiwch - dathlwch a chydnabod eich cryfderau personol pob cyfle posib gewch chi!

Os nad ydych wedi clywed amdanom, mae gennym wefan www.nerthdyben.cymru sy'n cynnwys straeon, fideos, erthyglau, podlediad a chân unigryw sy'n cynrychioli ac yn cefnogi bwriad Nerth dy Ben.

Alaw Llwyd Owen




Cawsom noson rithiol lwyddiannus yn ddiweddar gyda'r awdur Rebecca Roberts yn sgwrsio gydag aelodau Grwpiau Darllen Llyfrgelloedd Sir Ddinbych. Roedd Angharad Rhys aelod o griw darllen Sgwrs a Sangria Dinbych yn llywio'r digwyddiad yn hynod gelfydd gan gychwyn y drafodaeth gyda chwestiynau difyr. Braf oedd clywed am gefndir Rebecca fel awdur ifanc sy'n lleoli ei nofelau yn y Gogledd Ddwyrain. Mae wedi cael llwyddiant anhygoel yn ddiweddar yn cyrraedd rhestr fer gwobr uwchradd Tir na n-Og gyda'i nofel #helynt. Pob lwc iddi pan ddyfernir y wobr mis Mai.

#BingoLlyfrau Cynhaliwyd gweithgaredd i hybu darllen dros wyliau'r Pasg gyda phlant oedran cynradd ardal Dinbych. Yn llwyddiannus gan ddarllen hyd at chwe llyfr oedd Elliw, 3 oed o Ysgol Twm o'r Nant a Gwenno sy'n 7



Gwenno yn cwblhau'r her #Bingo Llyfrau Darllen wrth fwynhau ei siocled Pasg



Elliw yn darllen i'w brawd bach Llŷr yn Llyfrgell Dinbych

oed o Ysgol Pant Pastynog.

Llongyfarchiadau iddynt a diolch i Siop Clwyd, Dinbych am noddi'r gweithgaredd. Fe wnaeth y ddwy lwyddo i ddarllen a chwblhau heriau amrywiol fel rhannu stori gyda'i hanifail anwes, creu den darllen a darllen stori dros zoom. Gwych, da iawn chi!


**Llythyr canmoliaeth**

Hyfryd oedd darllen llythyr Mrs. Freda Pierce yn Y Bigwn yn Ebrill. Diolch mawr iddi am ei geiriau caredig ac am hyrwyddo adnoddau'r llyfrgell, yn benodol y Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref. Cysylltwch am ragor o fanylion 01745 816313. Braf gweld bod Mrs Pierce yn derbyn gwasanaeth cyffelyb gwych gan Lyfrgell Caerfyrddin. Mae hanes Mrs Pierce yn pwysleisio manteision darllen a llyfrau i iechyd a llês nifer ohonom wrth ymdopi yn ystod y cyfnod clo.

Diddorol oedd darllen hanes cynnar Llyfrgell Dinbych yn ein safle presennol yn yr hen Neuadd y Sir. Gobeithio bod rhywun hefo atgofion neu luniau o'r cyfnod.





Mae bywyd Owen yn braf; fel cynhyrchydd teledu i gwmni annibynnol yn y brifddinas, bu'n godro'r system ers blynyddoedd, yn ennill llawer iawn o bres am ychydig iawn o waith. Hynny yw, nes i'w wraig ei adael a nes iddo gael ei ddiswyddo.




Cyfuniad o stori annwyl Huw Davies a lluniau hyfryd Lowri Roberts, yn adrodd stori Ben y bachgen bach direidus sy'n hoffi casglu pethau ych-a-fi mewn bwced a chwarae triciau ar ei rieni

## Dyma rai o lyfrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i oedolion a phlant




Cyfrol o gerddi gan Marged Tudur am y profiad o golli ei brawd. Mae cerddi'r gyfrol yn ymateb yn uniongyrchol i'r wythnosau cyntaf wedi'r brofedigaeth ac maent hefyd yn trafod y profiad dair blynedd yn ddiweddarach ac yn benodol, yr heriau, yr ofnau a'r rhwystrau sy'n parhau i wynebu rhywun.




Gan ddefnyddio cymeriadau o gyfres lwyddiannus Mali, mae Malachy Doyle yn dangos sut mae Mali a'r ynyswyr eraill yn ymdopi â'r cloi mawr, fel y cloi presennol sy'n wynebu pawb yn y DU. Gwna Mali bosau jig-so, mae'n ymarfer canu'r ffidil ac yn gofalu am yr anifeiliaid anwes tra bod ei mam yn helpu'r ynyswyr eraill a'i thad yn methu dychwelyd o'r tir mawr.

# Dolydd blodau gwyllt ychwanegol yn cael eu creu ar draws Sir Ddinbych



Crud y Castell

Mae nifer o ddolydd blodau gwyllt ychwanegol yn cael eu creu eleni yn Sir Ddinbych i gefnogi cynllun peilot parhaus i gynyddu bioamrywiaeth.
Y llynedd roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi adnabod 21 o safleoedd yn cynnwys ymylon priffyrdd, llwybrau troed, llwybrau beicio a glaswelltiroedd i gael eu rheoli i greu dolydd blodau gwyllt.
Fel rhan o ymrwymiad parhaus y Cyngor i wella bioamrywiaeth ar draws y sir mae'r cyngor wedi adnabod 29 safle ychwanegol i'w cynnwys yn ei Brosiect Blodau Gwyllt.
Mae hynny'n golygu bod cyfanswm o 54 safleoedd yn cael eu rheoli ar gyfer blodau gwyllt o ran tarddiad lleol.
Mae'r safleoedd hyn, ynghyd ag 11 Gwarchodfeydd Natur ar Ymyl Ffyrdd y Cyngor, wedi cyfrannu at bron i 60 erw o gynefin blodau gwyllt o darddiad lleol.
Meddai Emlyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor: "Mae'r safleoedd yn cael eu rheoli yn unol â chanllawiau Rheoli Glaswelltir ar Ymylon Ffyrdd Plantlife sydd yn atal y gwair rhag cael ei dorri rhwng Mawrth ag Awst bob blwyddyn, gan ganiatáu digon o amser iddyn nhw dyfu, blodeuo a hadu. Mae trefn o dorri a chasglu wedi'i weithredu i leihau ffrwythlondeb pridd ac i ddarparu'r blodau gwyllt gyda'r amgylchiadau gorau posib.
Bydd y safleoedd hyn yn cael eu monitro a'r borderi yn cael eu torri o amgylch y safleoedd er mwyn sicrhau bod dim effaith ar rwydwaith priffyrdd a diogelwch ar y ffyrdd."
Mae'r prosiect bellach yn cynnwys safleoedd ym Mhrestatyn, Y Rhyl, Gallt Melyd, Diserth, Rhewl, Dinbych, Henllan, Nantglyn, Llanferres, Llanrhaeadr, Pwllglas, Rhuthun, Corwen, Cynwyd a Llangollen a fydd yn cael eu 'torri'n llawn' ddechrau mis Medi.
Yn ôl Liam Blazey, Swyddog Bioamrywiaeth gyda'r Gwasanaeth Cefn Gwlad: "Efallai nad oes gan rai o'r safleoedd mwy newydd arwyddion eto ond rydym yn disgwyl iddynt fod yn barod. Mae'r 5 safle cyntaf (Caeau Parc Alafowlia i Rhodfa Cysgodfa yn Ninbych, yn rhan o rwydwaith blodau gwyllt sy'n cysylltu gyda'i gilydd o'r enw Coridor Clwb Twm). Enwir y safleoedd ar ôl y strydoedd y maent agosaf atynt, felly efallai y bydd angen ychydig o archwilio os yw trigolion yn chwilio amdanynt!"

Dyma restr lawn o'r safleoedd yn Ninbych:


1. Caeau Parc Alafowlia
2. Dalar Wen
3. Ardal Chwarae Y Maes
4. Rhodfa'r Maes
5. Rhodfa Cysgodfa
6. Gorsaf Heddlu Ffordd Y Graig
7. Yr A525 - pen y ffordd osgoi ymyl-ochr y cae (i'r chwith os ydych yn gyrru tua'r de)
8. Ffordd Rhuthun wrth ymyl y gylchfan (ar y chwith os yn gyrru tuag at Rhuthun)
9. Coridor Lôn Tywysog
10. Crud-Y-Castell
11. Cysgod y Graig 1
12. Cysgod y Graig 2
13. Cysgod y Graig 3
14. Caeau Llys Gwydyr

SIOP CLWYD
33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431
Llyfrau, Cardiau, Crynoddisgiau a Chrefftau

HUW VAUGHAN JONES
Arlunydd,Cartwnydd
Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig.
Cysylltwch â Huw ar
01745 812184

# Hamdden Sir Ddinbych - Cymunedau Bywiog
## Adnoddau Celf yn y Cartref
### Rhagnodi Cymdeithasol - Creadigrwydd er Iechyd a Lles

**Mae corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos bod gwneud rhywbeth creadigol yn gallu cael effaith gadarnhaol ar eich iechyd a'ch lles - felly gwnewch greadigrwydd yn un o'ch 5 Ffordd at Les.**
**Mae gennym lawer o adnoddau dwyieithog ar gael i bobl sy'n byw yn Sir Ddinbych a'r cyffiniau. Os hoffech gyfeirio unrhyw un a fyddai o bosibl yn falch o dderbyn pecyn neu ymuno mewn gweithgaredd, cysylltwch â jo.mcgregor@denbighshireleisure.co.uk neu ffoniwch 07799 582766. Gall unigolion hefyd gyfeirio eu hunain atom**



**Celf yn y cartref - Pecyn Clai - gwneud eich potyn clai eich hun drwy'r dull 'pinsio'**
**Celf yn y cartref -Pecyn Mosaig - gwneud eich matiau diodydd eich hun**
**Ysgrifennu Creadigol ar gyfer Oedolion - llyfryn llawn gweithgareddau i gadw'ch meddwl yn brysur**
**Ysgrifennu Creadigol ar gyfer Pobl Ifanc - llyfrynnau o weithgareddau llawn hwyl i bobl ifanc 11 - 13 a 14 - 16 oed**

**Gwneud Atgofion - bocs o ddeunyddiau a syniadau ar gyfer cofio a gwneud atgofion a gweithgareddau creadigol. Mae pedair thema ar gael - Natur, Glan y Môr, Chwarae a Diwrnod Golchi**
**Hefyd ar gael: fersiwn Ystyriol o Ddementia a fersiwn addas ar gyfer Cartrefi Gofal**

**Celf yn y cartref - Llyfryn a Deunyddiau Lles Creadigol sy'n llawn o bethau creadigol i'w gwneud yn y cartref**
***Hefyd ar gael: fersiwn Addas i'r teulu ac Ystyriol o Ddementia**

**Sut mae eich gardd yn tyfu: CD Symud Gofalgar addas ar gyfer cartrefi gofal, pobl sy'n byw gyda dementia a Parkinson's**
**Atyniadau Tref Dinbych: DVD Symud Gofalgar addas ar gyfer pobl sy'n gwella ar ôl strôc**
**Anadlu ac Arafu: CD Symud Gofalgar i leddfu gorbryder a straen**

**I gadw mewn cysylltiad dilynwch @DLLCelfArts neu www.denbighshireleisure.co.uk/community-arts/**
**I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud atgyfeiriad, cysylltwch â: Siân Fitzgerald sian.fitzgerald@denbighshireleisure.co.uk / 07717 540857 neu**
**Jo McGregor**
**jo.mcgregor@denbighshireleisure.co.uk / 07799 582766**

**Hefyd ar gael – sesiynau Zoom wythnosol**
**Mae Ymgolli Mewn Celf yn brosiect celfyddydau creadigol ar gyfer pobl gyda dementia a'u gofalwyr.**
**Bob dydd Mawrth 2-3pm**
**Canu o'ch Cartref (gyda CGWM)**
**Sesiwn hamddenol ar gyfer pobl 50+**
**Bob dydd Mawrth 10.30 - 11.15pm**
**(Sesiwn Saesneg 1.00 – 1.45pm)**
**Celfyddydau Creadigol ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu (gyda STAND)**
**Bob dydd Iau 11am-1pm**
**Symudwyr Sir Dinbych – sesiynau dawns ar gyfer pobl 50+ (gyda New Dance) Bob dydd Mercher 10am-11am**
**Dawns Ieuenctid Sir Ddinbych gyda New Dance**
**Bob dydd Llun 4-5pm**
**Drama Ieuenctid gyda Gweithdy a Gwasanaethau Ieuenctid Sir Ddinbych Bob dydd Llun a dydd Iau 6.30-7.30pm**



## CLWB RYGBI DINBYCH

Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar Gylchlythyr i Aelodau wedi ei sgwennu gan Gruff Roberts, Ysgrifennydd y Clwb. Rydym yn hynod ddiolchgar iddo am roi caniatâd i ni wneud hyn.

### Mae Rygbi yn ôl!

Yn dilyn y cyhoeddiad diweddaraf gan Lywodraeth Cymru, gall ymarfer a chwarae rygbi i oedolion ail-ddechrau o ddydd Llun 26ain o Ebrill ar yr amod bod cyflyrau iechyd yn parhau i fod yn ffafriol. Bydd y timau oedolion yn dechrau ymarfer eto ddydd Mawrth, 4ydd o Fai ddwywaith yr wythnos gyda sesiynau dydd Iau hefyd. Mae'r hyfforddwyr yn mynd i ddechrau paratoi ar y sail y bydd yn rhaid iddynt ail-adrodd y protocolau a oedd ar waith pan ail-ddechreuodd ymarfer Hydref y llynedd.

Mae pwyllgor Chwaraewyr ac Hyfforddi wedi cyfarfod eto dydd Mawrth 27ain Ebrill i sicrhau fod popeth yn barod. Bu rhaid i holl chwaraewyr sy'n dymuno ymarfer, gofrestru ar gyfer y tymor presennol a chwblhau'r ffurflen COVID-19.

Ail-ddechreuodd ymarfer a chwarae rygbi ar gyfer plant dan 18 oed ar Fawrth 27ain, newyddion gwych wrth weld gymaint o grwpiau oedran yn cymryd rhan, rhagolygon gwych o olyniaeth i'r Clwb. Dyma'r rhaglen wythnosol:

Dan 7-9 Nos Iau 18:00 - 19:00 / Bore Sul 10:00 -11:00 - Yn y Clwb
Dan 10 Dydd Gwener 16:30 - 17.30 – Coleg Myddelton
Dan 12 Nos Wener 17:30 - 19:00 - Yn y Clwb
Dan 13 Bore Sadwrn - Yn y Clwb
Dan 14 Nos Fercher 18:30 - 20:30 - Yn y Clwb
Dan 15 Nos Fercher 18:00 - 19:30 – Coleg Myddelton
Dan 16 Nos Iau 18:30 - 20:00 - Yn y Clwb

### Cit Newydd

Mae Macron, prif gynhyrchwyr cit chwarae timau cenedlaethol Cymru yn cynnig dau git am ddim fel rhan o'u nawdd cenedlaethol. Mae'r pwyllgor wedi penderfynu caiff y timau Ieuenctid a'r Dan 15 dderbyn y rhain. Cwmni Mars-Jones Ltd fydd yn noddi'r Ieuenctid a bydd y tîm Dan 15 yn rhoi diolch i holl staff gweithgar y GIG ar eu crysau.

### Taith Jersey

Mae'r Fets yn gobeithio cadarnhau cyn bo hir eu bod am gystadlu yn Nhwrnamaint Super 10 Jersey eleni ar benwythnos dydd Gwener Hydref 1af. Mae'r twrnamaint ei hun ddydd Sadwrn yn unig eleni.

### Y Chwe Gwlad

Cafodd y Clwb gyfle i hyrwyddo ei hun a'i noddwyr yn Stadiwm y Principality yn ystod gemau cartref Cymru. Trefnodd URC i glybiau anfon crysau atynt a chael eu rhoi ar seddi sydd fel arfer yn cael eu llenwi gan gefnogwyr, i ddangos ein cefnogaeth i'r tîm a dod â phawb i'r Stadiwm.

### Y Clwb a'i Chyfleusterau

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor a'r is-grwpiau yn delio â 3 prif gynllun i wella cyfleusterau'r Clwb, hefyd cyfrannu at ddenu a chadw chwaraewyr, a buddion allweddol eraill.

### Ystafell Pwysau Newydd

Y cynllun yw ail-adeiladu'r Ystafell Pwysau presennol yn llwyr ar safle newydd wrth y Clwb. Y pwrpas yw creu ystafell fwy a fydd yn fwy effeithlon ac yn gallu denu mwy o aelodau newydd (aelodau sy'n chwarae i'r Clwb a rhai sydd ddim). Hefyd creu cyfleuster hyfforddi gwell gyda digon o le i'r timau.

### Gwella'r Toiledau Merched

Y cynllun yw diweddaru ac adnewyddu toiledau'r merched yn CRD a chefnogi gwelliannau eraill yn y Clwb i ddenu cwsmeriaid newydd, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd y broses o lanhau'r cyfleusterau.

### Maes Terry Bryer

Bwriad y Clwb ers amser yw gwella yn raddol ansawdd caeau chwarae a hyfforddi'r Clwb. Yn dilyn y cae hyfforddi, y bwriad yw gweithredu gwelliannau i wyneb y cae chwarae ac hefyd y system ddraenio sy'n gysylltiedig â Maes Terry Bryer, sef y prif faes chwarae.

### Caeau a'r Amgylchedd

Mae'r Clwb wedi cyflwyno cais cynllunio ar gyfer y llifoleuadau LED newydd. Os fydd y cais yn cael ei dderbyn, bydd trefniadau yn cael eu gwneud gyda'r prif gontractwyr ABACUS i'w gosod a bydd yr amser y mae yn ei gymryd yn dibynnu ar gyflwr y ddaear. Bydd y llifoleuadau presennol yn cael eu tynnu i lawr.

### Amgylchedd

Fel rhan o brosiect amgylcheddol y Clwb, fe blannodd y diweddar Peter Minshull dwy fesen yn ei ardd yn Nhrefnant gyda'r bwriad iddyn nhw gael eu plannu yn y Clwb. Trawsblannwyd y ddwy goeden dderw ifanc a oedd bellach yn lasbrennau ar dir y Clwb (ar ddarn o dir yn syth i'r chwith wrth fynd i mewn trwy'r giatiau) ar ddydd Gwener 9fed o Ebrill, mewn digwyddiad preifat. Roedd Marilyn, gwraig Peter, yng nghwmni aelodau o'i theulu a ffrindiau agosaf, yn bresennol. Trefnwyd y trawsblaniad gan Phil Morris, un o arweinwyr prosiect amgylcheddol y Clwb. Roedd Marilyn yn gwerthfawrogi'r modd y gwnaeth Phil ei waith yn ystod y digwyddiad.

⟶

SJ CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS

Yn cyflwyno Amser i Siarad ....

Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal

NID OES ANGEN ARCHEBU LLE

Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol

Neuadd Gymunedol Llys Erw
Rhuthun
10yb–11yb
2il Mai
4ydd Gorffennaf
5ed Medi

Canolfan Gymunedol Eirianfa
Factory Place, Dinbych
10yb-11yb
20fed Mehefin
18fed Gorffennaf
15fed Awst
19eg Medi

Canolfan Gymunedol Awelon
Ffordd yr Ysgol, Rhuthun
10yb–11yb
6ed Mehefin
1af Awst

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar
01824 703833 (Rhuthun) neu
01745 818263 (Dinbych)

Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

(Yn ôl y llyfr "40 Mlynedd o Rygbi – Clwb Rygbi Dinbych", a gyhoeddwyd yn 2018, roedd sôn yn y wasg Saesneg leol ym mis Gorffennaf 1984 am 'howls of protest from local environmentalists' yn dilyn torri nifer o goed derw aeddfed i alluogi'r Clwb i ymestyn ei meysydd chwarae. Ond yn ôl Adran Gynllunio Cyngor Dosbarth Glyndŵr, doedd dim Gorchymyn Cadwraeth ar y coed. Felly mae gan goed derw arwyddocâd arbennig i rai o aelodau hŷn y Clwb, yn enwedig un goeden nodedig iawn. Efallai i rai ohonoch gofio'r hen goeden bu'n rhaid ei thocio am resymau iechyd a diogelwch yn 2004. Fe gadwyd rhan helaeth o'r boncyff, a chafodd hwnnw ei gerfio gan Matt Thomas o Drefnant, un a oedd wedi ennill sawl gwobr genedlaethol am ei waith cerflunio coed.

Yn rhifyn mis Hydref 2017 o'r Bigwn, cyhoeddwyd erthygl gan Ifor John Jones am artist leol o'r enw Dorine Edna Jones, sef mam Ifor John. Cafwyd caniatâd i gyhoeddi nifer o'i lluniau, gan gynnwys un o'r dderwen yn y Clwb ym 1985. JD.)

Mae Phil Morris ac Iwan Edwards hefyd wedi bod yn brysur yn plannu gwrychoedd bob ochr i brif giât y clwb, ac mae hwn yn rhan o waith creu amgylchedd cynaliadwy Cynllun Datblygu'r Clwb.

**Grŵp Gwirfoddolwyr**

Cynhaliwyd adolygiad i nodi'r holl waith gwirfoddol sy'n cael ei wneud yn y Clwb. Cadarnhaodd yr archwiliadau o wirfoddolwyr y Clwb fod dros 70 o unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol, ond dros 100 wrth ystyried rolau eraill gyda'r Adran Mini/Iau.

**Ysgrifennydd / Gweinyddwr Tocynnau**

Diolch yn fawr i Tom Williams am ei 8 mlynedd fel swyddog tocynnau Clwb Rygbi Dinbych. Mae ei waith caled dros y blynyddoedd wedi dod â refeniw da i'r Clwb ac wedi rhoi cyfle i aelodau fynd i gemau Rhyngwladol. Bydd Ysgrifennydd y Clwb, Gruff Roberts, yn cymryd y cyfrifoldeb o hyn ymlaen.

John Davies

# Datblygiadau ar faes CPD Dinbych

Er nad oes llawer o bêl-droed wedi ei chwarae yn Central Park ers dros 12 mis erbyn hyn, mae'r gwaith cyffrous o amnewid y system ddraenio bresennol wedi dechrau dros yr wythnosau diwethaf i wneud lle ar gyfer system chwistrellu newydd sbon fydd yn gweithio drwy dyllau turio fydd yn llenwi dau danc dŵr 25,000 litr.

Mae ymwelwyr rheolaidd a chefnogwyr y Clwb yn ymwybodol o broblemau heriol y system ddraenio bresennol dros fisoedd caled y gaeaf ers sawl blwyddyn rŵan, gyda gemau'n gorfod cael eu gohirio ar fyr rybudd, neu'r cae weithiau yn cymryd wythnosau i gael ei adfer ar ôl cyfnodau o dywydd gwlyb.

Gyda chefnogaeth hael Lock Stock Storage, bu'r Clwb yn llwyddiannus wrth wneud cais am nawdd gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, Cronfa Gymunedol Cyngor Sir Ddinbych a Chwaraeon Cymru. Swm y nawdd yw £200,000.

Derbyniodd y Clwb bron i £80,000 gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Coedwig Clocaenog sydd wedi ei weinyddu gan Gymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy. Dywedodd Esyllt Adair, sef Rheolwr y Gronfa, "Mae'r gronfa wedi ei greu i helpu cymunedau lleol sy'n byw yn, ac o gwmpas y ffermydd gwynt yn Sir Conwy a Sir Ddinbych. Mae CPD Dinbych yn glwb dirgrynol sy'n cymryd camau positif er mwyn darparu'r cyfleusterau gorau i bobl leol o bob oedran i chwarae, gwylio a chymryd rhan, ac rydym yn falch iawn o allu eu helpu i wneud hynny."

Dywedodd Shon Powell, Cadeirydd y Clwb, sydd wedi chwarae rhan flaenllaw yn y broses, "Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r holl bartneriaethau nawdd sydd wedi ein galluogi ni i ddechrau ar y gwaith a darparu cyfleusterau pêl-droed o'r safon uchaf. Does dim llawer o bethau positif wedi dod o'r pandemig ofnadwy yma, ond mae'r cyfnod clo diweddar a diweddu tymor pêl-droed y 3ydd haen yn gynnar wedi rhoi cyfle i'r clwb i ddechrau ar y gwaith yma gyda'r gobaith o'i gwblhau yn gynnar ar ddechrau'r tymor 2021-22. Rydym yn edrych ymlaen yn arw i groesawu'r ymwelwyr cyntaf i Central Park."

Mae'r gwaith yn cynnwys tynnu 500 tunnell oddi ar wyneb y cae ac yn ei le, gosod 650 tunnell o dywod a phridd newydd. Bydd pibellau draenio yn cael eu gosod gyda system chwistrellu newydd sbon fydd yn cael eu bwydo gan y tanciau dŵr newydd fydd wedi eu gosod 60 metr dan ddaear.

Mae'r gwaith yn cael ei wneud gan 360 Groundcare, Shelton Drainage a Dragon Drilling.

Yn dilyn cyhoeddiad, bydd pêl-droed Cynghrair Lockstock Ardal Northern yn dechrau eu tymor ar yr 31ain o Orffennaf 2021. Mae'r cloc yn tician i gael y cae chwarae'n barod mor fuan â phosib.

Mae pêl-droed yn ôl!

Iwan Jones

## *Y BIGWN - TRYSORYDD*

Rydym yn chwilio am Drysorydd cyn gynted â phosib.
Does dim gwaith golygu ynghlwm wrth y gwaith.
Cysyllter â: -
John Geraint Jones 01745 817485
jones_john@btinternet.com
neu â:-
Stan Lyall 01745 813659 stanmaberic@hotmail.com

## *Y BIGWN - YSGRIFENNYDD*

Rydym yn chwilio am Ysgrifennydd cyn gynted â phosib.
Does dim gwaith golygu ynghlwm wrth y gwaith.
Cysyllter â: -
Bedwyr Griffiths 01745 814497ed321@btinternet.com
neu â:-
Stan Lyall 01745 813659stanmaberic@hotmail.com

# Datblygiadau ar faes CPD Dinbych



Tyllu i wneud lle i'r draeniau



Gwneud lle ar gyfer y draeniau newydd



Cerrig mân wedi eu gosod dros y draeniau newydd



Y pibellau dŵr yn cael eu gosod ar gyfer y system chwistrellu.



Y tanc dŵr 25,000 litr

CRD

CLWB RYGBI DINBYCH



Un o goed derw Pete



Yr Hen Dderwen 1985



Gwrychoedd ifanc wedi eu plannu gan Phil ac Iwan



Matt Thomas a Jeff Jenkins 2004

# Ble mae'r drewdod? – yr atebion

1. **Wrth fynedfa Pencoed**
2. **Lôn y Post**
3. **Hanner ffordd i fyny Lôn Goch ar y chwith (hon sydd bellach wedi ei thynnu oddi yno)**
4. **Gwaelod Lôn Goch ger Aldi**
5. **Tipyn tu ôl i Goleg Myddleton lle mae llwybr o Goed y Castell i Ffordd Ystrad yn croesi llwybr arall.**
6. **Yn union tu ôl i Goleg Myddleton**
7. **Lôn Llywelyn**
8. **Lôn Abram**
9. **Gwaelod Stryd y Dŵr**
10. **Ar hyd Privy Lane (ochr arall i'r ffordd osgoi)**